YR YMOFYNYDD.

Rhif. 46.] HYDREF, 1862. [Ail Gyfres.

EDIFEIRWCH CRISTIONOGOL.

Ystyr y gair edifeirwch yw ol-feddwl am weithred neu ymddygiad o le. Mae yn cynwys i fod dyn oddiar anwybodaeth neu anystyriaeth wedi gwneyd yr hyn nad oedd yn iawn; ond ei fod, ar ol galw ei hun i ystyriaeth a chael golwg well ar ei ddyledswydd, yn penderfynu ymddwyn yn wahanol rhagllaw. Cawn engraifft o hyn yn nameg y ddau fab. Dywedodd y tad wrth y cyntaf: Dos, gweithia heddyw yn fy ngwinllan. Yntau a atebodd: Nid af; ond wedi hyny efe a edifarhaodd ac a aeth. Bu ddrwg ganddo iddo nacau: newidiodd ei feddwl, a gweithredodd yn gyfatebol.

Mae llawer o son am edifeirwch yn y Testament Newydd.* "Edifeirwch" oedd pregeth Ioan Fedyddiwr. "Dyfod i alw pechaduriaid i edifeirwch" a wnaeth Iesu Grist. Pan yn danfon ei apostolion allan, ei orchymyn iddynt oedd: "Pregethu edifeirwch a maddeuant pechodau yn ei enw ef yn mhlith yr holl genhedloedd." Cawn Paul wrth anerch henuriaid eglwys Ephesus yn rhoi copi-nod o brif destunau ei weinidogaeth yn eu plith: "Gan dystiolaethu i'r Iuddewon ac i'r Groegiaid hefyd yr edifeirwch sydd tuag at Dduw, a'r ffydd sydd tuag at ein Harglwydd Iesu Grist." A cherbron Agrippa symia i fynu ei genadwri i Iuddewon a chenhedloedd: "Fod iddynt edifarhau a gwneuthur gweithredoedd addas i edifeirwch." Mae geiriau yr Apostol Pedr i'r Iuddewon hefyd yn cynwys yr un addysg: "Edifarhewch, a dychwelwch, fel y dileir eich pechodau."

Wrth gymharu a'u gilydd y gwahanol fanau hyn, ynghyd a manau eraill, cynorthwyir ni i ddeall pa beth oedd yr edifeirwch a ofynai ac a ofyna Cristionogaeth; neu edifeirwch Cristionogol. Cawn ei fod yn dynodi yr agwedd meddwl a'r penderfyniad gofynol i'w meddu cyn y delo dyn yn ddysgybl teilwng i'r Iesu. Mae amrywiol eiriau eraill i'w cael yn y Testament Newydd am y cyfnewidiad i ffydd a buchedd Gristionogol; ond nid oes un yn llai ffigyrol na'r gair hwn, edifeirwch. Gellir gorfanylu llawer ar y ffigyrau goblygedig yn y fath eiriau ag adenedigaeth, creadigaeth newydd, sancteiddiad a chyfiawnhad; ond ai nid ydynt oll ond cynifer o ffyrdd gwahanol i osod gerbron y gwirionedd dwys a gynwysir yn y gair syml hwn, edifeirwch? Amcan Duw yn y dadguddiad y rhyngodd bodd iddo, o'i rad

* Mae dau air yn cael eu harfer yn y gwreiddiol am 'edifarhau,' yn ol ein cyfieithiad ni. Mae rhai wedi ceisio gwneyd gwahaniaeth rhyngddynt, ond dywed Schleusner (*sub voce metanoia*) fod y ddau air yn cael eu defnyddio yn ddiwahaniaeth gan yr awdwyr gorcu.

drugaredd, ei wneyd i'r byd trwy'r Iachawdwr oedd dwyn dynion allan o'u tybiau gau ac o'u harferion drwg; ac mewn trefn i effeithio hyn mae'r Efengyl yn cynwys nid yn unig sail dyledswydd dyn yn y berthynas a esyd allan fel yn hanfodi rhyngddo a'r Tad goruchaf, ond hefyd rheol ei ddyledswydd, gyda golwg ar y meddyliau y mae i'w meddwl, y gweithredoedd y mae i'w cyflawni—gyda golwg ar yr oll o ddyn, gorff a meddwl.

Yr effaith ar y meddwl o'i fod yn cael ei ddwyn i weled pa beth yw gofynion cyfraith sanctaidd Duw, yw edifeirwch; a phan y mae'r gofynion hyn yn cael eu gwneyd yn wybyddus i ni gan yr Efengyl neu Gristionogaeth, fel ag y maent yn amgenach na thrwy unrhyw foddion eraill, yna mae'r effaith hwn ar y meddwl yn cael ei alw genym yn edifeirwch *Cristionogol.* Golyga yr argyhoeddiadau a'r penderfyniadau a gynyrchir yn y meddwl ynghylch y bywyd i'w arwain genym fel plant i'r Goruchaf. Mae golwg edifeirwch yn ol ar yr hyn yw dyn wedi bod, ar yr holl amgylchiadau a ant i wneyd i fynu yr hyn a fyddo dyn ar y pryd. Mae golwg edifeirwch yn mlaen hefyd ar y diwygiad sydd yn gyrhaeddadwy i ddyn, yr ymdrech y mae i'w gosod allan, y gofal y mae i'w arfer tuag at ymgadw oddiwrth y pethau a ddarfu ei niweidio yn yr amser a aeth heibio, ac ymestyn at bethau rhagorach yn yr amser a ddaw. Ac fel canlyniad i hyn, mae golwg edifeirwch ar y tangnefedd y dygir y meddwl i feddiant o hono trwy agosach cydymffurfiad a'r rheol ddwyfol.

Ychydig iawn yw nifer y rhai hyny a ddygir i fynu o dan addysg mor dda, ac a rodiant mor ddiesgeulus, fel nad oes achos iddynt deimlo cur a gofid meddwl am ryw weithredoedd neu arferion, a phenderfynu gwella yn yr amser a ddaw. Anhawdd penderfynu, ond gall fod rhai heb fod ganddynt ddim i'w wneud ond cychwyn yn mlaen ar y ffordd y maent arni o'r dechreu. Gall fod rhai yn berchen ar y fath gyfansoddiad corff a meddwl, ac wedi cael cystal athrawon a chystal esiamplau a chynorthwyon o'r gadair i fynu, fel ag y mae rhinwedd a duwioldeb yn naturiol iddynt; maent o'r dechreu yn ddysgyblion i'r Iesu; ni fu eu rhodiad erioed yn ddim ond Cristionogol; nis gallant gyfeirio at unrhyw gyfnod yn eu bywyd pan y cymerodd rhyw gyfnewidiad neillduol le, ac nid oedd angen am dano. Gall fod rhai fel hyn, a gwynfyd na byddai pawb. Ond amlwg yw mai fel arall y mae hi gyda'r mwyafrif, Mae y rhan fwyaf o honom ar ryw adeg o'n bywyd wedi bod yn cerdded ar hyd llwybrau, ac yn gweithredu gweithredoedd ac yn ngafael âg arferion na roisant ond gofid o'r tristaf i ni pan ddeffrowyd ni i ystyriaeth, ac y tueddwyd ni i edrych ar ein hymddygiad yn ngoleu cyfraith Duw.

Mewn rhyw ffordd neu gilydd y mae dameg y mab afradlon yn ddarluniad rhy gywir o'r ran amlaf o ddynion. Ni wiw celu'r peth na cheisio ei esponio ymaith; ni wiw gwadu yr hyn y b'o dyn ei hunan wedi ei ysgrifenu a'i law-arwyddo mewn gweithredoedd nas gellir eu camsynied. Wrth ddarllen am lwyddiant gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr ni a gawn i lawer o'r Phariseaid ac o'r Saduceaid i fyned ato; ac y mae yn cyfarch y naill fel y llall mewn geiriau llymion, ac yn arfer iaith a arwyddai fod bywyd gwell yn bosibl i'r ddau. Yn awr dyma ddau ddosparth o ddynion gwahanol iawn i'w gilydd, yn wir, gwrthwynebol i'w gilydd. Gwahaniaethent yn fawr yn eu daliadau crefyddol. Hynodid y Phariseaid gan barch gorfanwl i gyfraith draddodiadol Moses yn gystal ag i'r gyfraith ysgrifenedig neu'r pum llyfr, ynghyd a chred yn adgyfodiad y corff. Gwnai y Saduceaid, ar y llaw arall, wrthod yn llwyr y garn o draddodiadau a ychwanegasai y Phariseaid at y

gyfraith ysgrifenedig. Gwadent sefyllfa ddyfodol o wobrwyon a chospau. Cymeriad y Phariseaid yn yr Efengylau yw rhai gofalus iawn ynghylch ffurfiau bychain, a difater iawn am ddyledswyddau mawrion; rhai yn cyflawni troseddau yn erbyn eu cyd-ddynion, ac fel clogyn drostynt yn gwneyd gweddiau hirion ar Dduw. Yr oedd y Saduceaid ar y llaw arall yn gywirach yn eu moesau, ond yn gwneyd llai o broffes grefyddol ac yn talu llai o sylw i ddefosiwn allanol. Nid oeddynt na lluosog na phoblogaidd, tra yr oedd y Phariseaid yn bob un o'r ddau. Ond er fod y ddwy blaid hon yn amrywio cymaint mewn barn a chymeriad, mae pregeth syml y Bedyddiwr yr un iddynt: yr angenrheidrwydd am edifeirwch.

Mae cyfnewidiad meddwl a buchedd—yr olaf yn effaith y blaenaf—yn myned i wneyd i fynu edifeirwch. Cyfnewidiad er gwell, dychweliad oddiwrth dywyllwch a drygioni blaenorol yw. Mae hyn yn amlwg, debygem, pa le bynag yr arferir y gair yn y Testament Newydd. Cymhwysir ef fel y gwelsom uchod at Phariseaid a Saduceaid; nid yn unig hyn, ond cymhwysir ef at Iuddewon a Chenhedloedd yn ddiwahaniaeth, a gwyddom mai nid yr un pethau a adewid heibio gan y ddau ddosparth hyn ar eu gwaith yn dyfod yn Gristionogion. Gadewai'r blaenaf eu crefydd genedlaethol, sef y rhan ffurfiol a seremoniol o honi, pa beth bynag nad oedd o rwymedigaeth barhaus; yr olaf, eu coel-grefydd a'r holl arferion llygredig a ffynent mewn cysylltiad â hi. Mae y llythyrau a ysgrifenodd yr Apostolion at wahanol ganghenau yr eglwys Gristionogol, yn rhoi cryn ddealltwriaeth i ni pa beth a fuasai'r Cristionogion boreuol hyn cyn eu dychweliad. Yr oedd gan bawb o honynt ryw gymaint o weithredoedd anffrwythlawn y tywyllwch i ymwrthod â hwy. Yr oedd yr alwad allan arnynt yn awr i droi a ddiwygio, am fod Duw wedi ymweled â'r byd a chodiad haul o'r uchelder, a thrwy hyn roi amlygrwydd gwell o wir amodau cynydd moesol pob dyn, Iuddew a Groegwr. Mae pob cenedl yn edifarhau pan yn troi i dderbyn y goleuni uwchaf y gwelodd Duw yn dda ei roi iddi. Mae pob dyn yn edifarhau pan yn dyfod yn ffyddlon i'w feddyliau mwyaf goleuedig, ei argyhoeddiadau dyfnaf, a'i ddymuniadau goreu; pan y mae difatterwch a musgrellni yn rhoi ffordd i ddifrifoldeb ac ymgais; pan y mae'r meddwl o dan gyfarwyddyd dwyfol law yn newid y tywyllwch am oleuni, a byd o rhyfeddodau newyddion yn tori arno. Fel y mae un awdwr yn sylwi: "Gyda phriodoldeb y dywedwn am danom ein hunain i ni gael ein geni, ac ar ol hyny i ni gael ein geni drachefn, a hyny lawer o weithiau. Mae llawer o'r profiadau olynol a gawn mor bwysig fel y mae'r newydd yn anghofio'r hen. Dydd y dyddiau, y dydd mawr yn ngŵyl bywyd yw hwnw pan y mae'r llygad mewnol yn agor i weled yr Undod sydd yn rhedeg trwy bob peth, holl-bresenoldeb deddf; i weled y rhaid o'r hyn y sydd i fod, ac y dylai fod, neu fod hyn y goreu."

Mae yn nglŷn ag edifeirwch dristwch, fel yr hyn sydd yn arwain iddo ac yn priodol derfynu ynddo—yr effaith ar y meddwl o'i fod yn gweled diffygion a llithriadau blaenorol, ac yn teimlo mawredd y cyfrifoldeb sydd arno. Nid oes dim yn hawddach na ffug-dristwch. Mae Paul yn sôn am dano o dan yr enw "tristwch y byd yr hwn sydd yn gweithio angeu;" gan ei alw yn "dristwch y byd," am y cwyd oddiar egwyddorion ac ymarferiadau y cwrddir â hwynt yn rhy gyffredin yn y byd, megys cywilydd, ofn dynoethiad, ofn colled neu niwed mewn rhyw ystyr isel a thymhorol. Darfodedig a marwol yn ei natur ei hun yw y fath dristwch. Nid oes ynddo nerth bywydol i barhau a gorchfygu rhwystrau. Nid oes i'w ddysgwyl y bydd i

fuchedd o iawnder a thangnefedd i'w ddilyn. Mae y tristwch sydd i edifeirwch neu ddiwygiad yn cael ei wahaniaethu oddiwrtho, fel tristwch yn ol Duw, sef yn codi oddiar fod goleuni gair Duw wedi tywynu ar y deall a chyrhaedd y gydwybod; cwyd oddiar amcanion didwyll a gonest ger bron Chwiliwr y calonau; ceidw ei olwg yn fwy ar berffaith gyfraith Duw nag ar gymeradwyaeth neu anghymeradwyaeth dynion. Fel hyn nid yw tristwch ond arwydd, a llawer ansicrach i roi hyder arno na'r hyn sydd i'w ganlyn, gwellhad bywyd, yr hyn beth y mae yn mhawb ryw gymhwysder i farnu yn ei gylch.

Cyfnewidiad o fath yr un dan sylw, yr hwn y mae a fyno â'r holl ddyn, a phob serch a chynneddf, a phob gobaith a bwriad a berthyn iddo, amlwg yw mai nid rhywbeth mynydol ydyw, i gael ei effeithio yn ddisyfyd, ac megys ar darawiad amrant. Nid myned o eithafoedd tywyllwch i oleuni canoldddydd ar unwaith. Naturiol a graddol yn ei ansawdd yw edifeirwch, i'w ddwyn i ben yn ol cwrs arferol pethau yn y byd hwn, trwy ymdrech a dyfal barhad. Y ffaith yw, o dan yr hon y mae holl anadliadau puraf yr yspryd, a holl ymdrechion goreu dyn, a'i holl brofiadau mwyaf nefol, trwy gydol blynyddoedd ei ymdaith ar y llawr, yn cael eu symio i fynu.

Nid rhwybeth yn y teimlad yn unig yw. Nid rhywbeth yn y deall yn unig. Mae'r holl ddyn yn cydweithredu; yr holl ddyn yn cael ei symud ymlaen. Mae'r goleuni sydd yn ymdywallt i mewn trwy ffenestri y deall yn cyffroi pob serch, yn bywydu pob cynneddf, yn awdwr pob dymuniad da, ac yn ysgogi yr holl ddyn yn mlaen yn ei yrfa o ddaioni.

Ni a gawn "edifeirwch" a "maddeuant pechodau" yn cael eu cysylltu a'u gilydd yn y Testament Newydd. Ac nid yw yn anhawdd gweled y rheswm o hyn. Oblegid lle byddo cyfnewidiad er gwell, yna ymadewir â'r pechodau. Dygiad y meddwl yn y lle cyntaf i iawn agwedd yw edifeirwch, yna y ffrwyth o hyn yn y fuchedd yw maddeuant neu ymadawiad â'r drwg. Mae pob pechod yn cael ei ddileu pan y b'o dyn yn ei adael. Maddeuant pechodau—cymer le y pryd y try dyn ei gefn arnynt, ac nid un foment yn gynt.

Ond am feiau yr amser a aeth heibio, a oes modd eu dadwneyd, neu beri iddynt fod fel pe na byddent? A oes modd diddymu eu heffeithiau? Nid oes sail i dybied hyn. Maent yna, ac arosant yna er dim a wnelom ni. Y cam-ymddygiadau y syrthiwyd iddynt gyda phethau y byd hwn, trwy esgeulusdod, neu fyrbwylldra, neu annoethineb, nid oes modd eu diddymu, yn yr ystyr o ddianc rhag y canlyniadau o honynt. Yr unig beth ellir wneyd yw gochel rhagddynt rhagllaw. Felly gyda beiau'r amser a aeth heibio, nis gellir eu dadwneyd; ond gallant fod er rhybudd, cyfarwyddyd, ac anogaeth i ddyn yn yr amser i ddyfod. Clod i Awdwr daionus ein natur, mae'r meddwl dynol yn byw yn fwy ar obaith nag ar adgof, yn edrych mwy yn mlaen nag yn ol. A'r olwg yn mlaen sy'n cadw'r galon o hyd yn ieuanc, ac yn gwneyd dyn yn fawr. Mae addysg a doethineb lawer yn yr hyn a aeth heibio; ond wrth edrych yn mlaen y mae nerth newydd o hyd yn dod i'r golwg, a'r dyn yn ymestyn megys i'w lawn faint er cymeryd gafael ar yr hyn sydd eto heb ei gyrhaedd. Gall fod adgofion yn gwanychu ac yn gwenwyno meddyliau rhai, ond yn y cyffredin edrychir ac ymestynir yn mlaen yn hytrach; fel ag y mae'r pren yn tyfu tuag i fynu yn fwy na thuag i lawr.

G.

Y MAE YN SICR O FOD YN IAWN.

Y MAE yn rhaid ei fod yn beth iawn i ymofyn am y gwirionedd, a gweithredu yn unol â'r goleuni ag ydym yn feddianol arno; pa beth bynag sydd yn gyfeiliornus. Nis gall peidio ymofyn am y gwirionedd rhag ofn syrthio i gyfeiliornad fyth fod yn iawn; ac nis gall fod yn iawn rhag ofn y byddwn trwy hyny i wneuthur yr hyn sydd ddrwg.

Y mae hyd y nod ein nattur yn profi ein bod ni wedi cael ein crëu i feddwl; a pha ddiben meddwl, os nid i gael allan y gwirionedd, ynghystal a'r ffordd oreu i'w ddwyn i ymarferiad. Ac nid wyf fi yn gweled, nac yn gwybod am un rheswm paham y dylem ofni syrthio i gyfeiliornad, os yw y diben sydd genym mewn golwg yn gywir. Os y digwydd i mi i syrthio i gyfeiliornad wrth chwilio am y gwirionedd, byddaf yn fwy cymeradwy yngolwg fy Nuw, nag y buaswn pe na bawn wedi chwilio dim am dano. Pe bai digwydd i mi wneuthur yr hyn sydd gamsyniol, neu gyfeiliornus yn herwydd fy mod yn awyddus i wneuthur yr hyn sydd iawn, buaswn, a bod yn sicr, yn fwy cymeradwy yngolwg Duw er fy holl gamsyniadau, na phe bawn yn sefyll yn segur, heb chwilio na meddwl dim drosof fy hunan, neu ynte heb gyffro yn ol nac yn y blaen, fel rhyw gorph o farwolaeth.

Y mae yn rhaid fod Duw yn caru y cyfryw hyny sydd yn ymdrechu a'u holl egni i gyflawni yr hyn ag y maent yn dybied sydd yn rhyngu ei fodd, pa mor gyfeiliornus bynag y dichon iddynt fod ynghylch y ffordd, neu y modd y maent yn ymdrechu ei foddio. Y mae yn rhaid fod Duw yn caru y rhai hyny ag sydd yn ymdrechu ei foddio Ef yn ol y goleuni ag a maent yn feddianol arno, ac yn awyddus yn barhaus i gael mwy o oleuni, fel y byddont trwy hyny i'w foddio yn well.

P.—Ond os bydd eich ymofyniad am y gwirionedd i'ch arwain i amheugarwch *(scepticism)* neu anghrediniaeth, beth wedi'n ?

B.—Wel, byd y nod pe bai hyny yn cymeryd lle, nis gallasai Duw fod yn ddig wrthyf, os na fyddai fy amheugarwch neu fy anghredinaeth yn effaith rhyw duedd, ac ymarferiad drwg, neu dymer hunanol a phechadurus. Dyma beth y mae'r Iesu yn ddywedyd ar y pen hwn: "A hon yw y ddamnedigaeth; ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni, canys yr oedd eu gweithredoedd yn ddrwg."—Ioan iii. 19.

Yr achos o ddamnedigaeth dynion yw—nid oherwydd eu bod yn gamsyniol mewn barn, ac nid o herwydd eu bod wedi cael eu harwain i amheugarwch ac anghrediniaeth yn eu hymchwiliadau am y gwirionedd ac am Dduw; ond o herwydd bod eu gweithredoedd hwynt yn ddrwg, a hyny, nid trwy gamsynied anocheladwy, ond o herwydd eu bod hwy yn *caru y tywyllwch yn fwy na'r goleuni.* Os mai felly y mae yn bod, nid oes achos i'r rhai hyny i ofni, gweithredoedd pa rai nid ydynt ddrwg, a'r rhai sydd yn caru y goleuni; nid ydynt yn caru y tywyllwch mewn un modd. Ond y maent yn awyddus am iddo gael ei symud ymaith. Nid oes dim ar wyneb y greadigaeth ag y maent mor hoff o hono a goleuni gwirionedd, ac y maent yn ymdrechu troi y tywyllwch sydd yn eu hamgylchynu i oleuni. Goleuni yw y peth ag y maent yn hiraethu, yn ymofyn, ac yn gweddio am dano. Nid yw eu gweithredoedd ychwaith yn ddrwg, ond yn y gwrthwyneb. Nid ydynt yn feddwon, nac yn buteinwyr, nac yn lladron; nid ydynt yn casâu Duw, nac yn casâu eu gilydd, na neb arall; ond y maent yn caru Duw, ac yn ymdrechu ei foddio, ac yn hiraethu am well gwybodaeth o hono. Y maent

yn caru eu cydgreaduriaid, ac yn ymdrechu gwneud daioni iddynt. Y maent yn gymmedrol, yn gyfiawn, ac yn bur. Nid ydynt yn drachwantus, nac yn gybyddlyd, nac yn falch. Y maent yn gwneuthur yr hyn sydd iawn hyd eithaf eu gwybodaeth, ac y maent yn ymofyn am ragor o wybodaeth yn barhâus, i'r diben penodol i wneuthur mwy o ddaioni yn mhob ystyr.

P.—Ond y mae dynion weithiau yn twyllo eu hunain. Y maent ar rai prydiau yn meddwl eu bod yn dda pan nad ydynt felly; ac y maent, ar brydiau eraill, yn meddwl eu bod yn ddrwg pan nad ydynt felly. Gall dyn fod yr oll ag ydych wedi ei ddysgrifio, ac etto fod yn ddrwg.

B.—Nid wyf fi yn eich credu. Nid wyf fi yn meddwl ei fod yn bossibl i'r fath gymmeriad ag ydwyf wedi rhoddi dysgrifiad o hono, fod yn hunandwyllodrus. Y mae yn rhaid fod dyn yn gwybod beth yw ei ddymuniadau a'i amcanion; ac os ydynt y fath ag sydd yn ei gymhell i hiraethu, ac i fod yn awyddus am y gwirionedd, ac i foddio ei Wneuthurwr, nid yw yn twyllo ei hunan. Nis gall y dyn ag sydd yn sobr, yn gyfiawn, ac yn gariadus, fod yn ddyn drwg. Y mae yn sicr o fod yn iawn.

Hefyd, gwrandewch ar beth mae Iesu Grist yn ei ddywedyd, "Oherwydd pob un a'r sydd yn gwneuthur drwg, sydd yn casâu y goleuni, ac nid yw yn dyfod i'r goleuni, fel nad argyhoedder ei weithredoedd ef, ond yr hwn sydd yn gwneuthur gwirionedd, sydd yn dyfod i'r goleuni, fel yr eglurhäer ei weithredoedd Ef, mai yn Nuw y gwnaed hwynt." Ioan iii. 21, 22. Y mae pob dyn ynte ag sydd yn gweuthur drwg yn casâu y goleuni, ac nid yw yn dyfod i'r goleuni rhag ofn i'w weithredoedd ddyfod i'r amlwg, neu fel nad argyhoedder ef. O ganlyniad nid yw y dyn *nad* yw yn casâu y goleuni —y dyn sydd yn llawenhau yn y goleuni—yr hwn sydd yn falch o bob gyfleusdra i brofi ei weithredoedd wrth y goleuni—y dyn ag sydd yn foddlon i'w weithredoedd i fod yn adnabyddus, ïe yr hwn sydd yn awyddus bob amser i'w wir gymmeriad a'i weithredoedd i gael eu gwneud yn adnabyddus i'r cyhoedd—nid yw y dyn hwn, meddaf, yn ddrwgweithredwr. Y mae y dyn ag sydd yn gwneuthur drwg yn *casâu* y goleuni, ond y mae hwn yn ei *garu*. Nid yw y dyn drwg yn dyfod i'r goleuni; ond y mae hwn yn dyfod iddo yn llawen.

Y mae y dyn drwg yn ofni rhag i'w weithredoedd gael eu datguddio; ond nid oes gan y dyn hwn un gwrthwynebiad i'r ymchwiliad manylaf i'w holl gyflawniadau. Nid yw ei weithredoedd gan hyny yn ddrwg. Y mae ef yn gyfiawn. Y mae yn caru'r gwirionedd, ac yn ymddwyn yn unol ag ef, hyd eithaf ei wybodaeth, ac y mae yn argyhoeddiadol ynddo ei hunan ei fod yn cyflawni ei holl weithredoedd gydag amcan i foddio ei Greawdwr, fel y dywedais yn barod. Nid oes achos gan hyny i'r fath gymmeriad ofni. Gall chwilio am y gwirionedd gydag ymddiried calonog, a chanlyn ei ddarganfyddiadau heb ofni y canlyniad. Pa un ai byddant i'w dueddu neu ei arwain at yr hyn a elwir *iawn-ffyddiaeth*, neu y gwrthwyneb; p'un ai byddant i'w arwain i fabwysiadu ffydd gadarnach yn ei olygiadau presenol, neu i amheuaeth ac anghrediniaeth ynddynt; y mae ganddo reswm i fod yn gysurus, ac yn hyderus; ac y mae rheswm ganddo hefyd i gredu y bydd yn deilwng o gymmeradwyaeth a bendith ei Dad Nefol, ac i ddisgwyl y bydd iddo Ef ei arwain ar hyd y llwybr uniawn, yr hwn a'i dwg i fan diogel yn y pendraw.

Y mae y dyn drwg, yr hwn sydd yn byw iddo ei hunan, yn boddio y cnawd a'i chwantau, yn aflan, yn anghymmedrol, yn anghyfiawn, yn dra-

chwantus, yn uchel-frydig ac yn falch, yn barod i gyflawni unthyw beth ag y mae ei gydwybod yn ei gondemnio, neu ynte unrhyw beth ag y mae yn gwybod nas gall oddef y goleuni, neu ymchwiliad; y mae y dyn hwn bob amser yn gamsyniol, ac yn teilyngu gwarth a sarâd. Nis gall fod ganddo un sicrwydd rhesymol ei fod yn iawn yn ei olygiadau, oblegid nid oes dim yn tueddu mwy i gwrthryblu a thywyllu y meddwl na drygioni; ac y mae yn sicr, na fydd i ddrygioni gael ei gymmeradwyo gan Dduw. "Canys digofaint Duw a ddatguddiwyd o'r nef yn erbyn pob annuwioldeb, ac anghyfiawnder dynion."—Rhuf. i. 18.

Yr wyf yn terfynu, gan hyny, trwy ddywedyd yn y lle cyntaf: Fod dyn onest, cydwybodol a geirwir, yn sicr o fod yn iawn, ac yn sicr hefyd o fod yn gymmeradwy, ac yn dderbyniol gan Dduw yn ei ymofyniadau am y gwirionedd. Yn ail: Fod y fath gymmeriad yn fwy tebyg o gael allan y gwirionedd, ac i fod yn gywir yn ei farn, na'r drygionus, y diog, y difatter, a'r ofnus. Gwelwn gan hyny, mai ein dyledswydd yw ymofyn am y gwirionedd yn barhaus, a'i gofleidio pryd bynag y caffom ef, p'un ai ydym yn dwyn nodau *iawn-ffyddiaeth*, neu ynte y gwrthwyneb; ag y dylem ei ddwyn i ymarferiad, pa un bynag y byddo iddo ein gwneuthur i ymddwyn yn gytun, ynte yn groes i arfer a ffasiwn yr oes; pa un ai yn boblogaidd, neu ynte yn anmhoblogaidd; a thra yr ydym yn gwneuthur hyn, a hyn yn unig, yr ydym yn sicr o fod yn iawn, ac yn rhai derbyniol yngolwg Duw, yn fendithiol i ddynion, ac yn dawel a chysurus yn ein meddyliau. *Cyf.* E.W.L.

BREUDDWYD.

Wedi ei gyfieithu o gyfieithad Seisneg Camden o'r Ellmyneg.

"Gwybydd, o law Dofydd Dad,
Nad yw cerydd ond cariad."—D. Wyn.

Yr oedd yr holl goed afalau yn yr ardd yn llawn blodau; yr oeddent wedi brysio i osod allan eu blodau hyd yn oed o flaen y dail: yr oedd yr hwyaid bach yn cwacian yn llawen yn y clôs, ac yr oedd y gath yn ymddifyru yng ngoleuni 'r haul, ac yn ei luo oddiar ei phawau ei hunan; a phe taflai dyn ei lygad dros y meusydd, yno yr oedd y llafur yn sefyll mor anghydmarol wŷrdd, a'r holl adar bach yn tiwnio cathlau mwyn, fel pe byddai yn rhyw wledd fawr! Ac yn wir gallem ddywedyd ei bod, canys y Sabboth ydoedd. Yr oedd y clychau yn canu, a'r bobl yn myned i'r eglwys yn eu dillad goreu, a phawb yn edrych mor ddedwydd! Yr oedd pob peth a phob un, yn wir, yn llawn o lawenydd, oblegid yr oedd yn ddiwrnod mor hyfryd, fel yr oedd yn hawdd dywedyd—"Y mae Duw mor anfeidrol yn ei ddaioni tuag attom oll."

Ond yn yr eglwys yr oedd y pregethwr yn sefyll i fynu yn y pwlpid ac yn llefaru mor uchel ac mor arw! Yr oedd yn dywedyd fod dynion yn annuwiol ac y byddai i Dduw eu cospi am hyny; a phan buasent farw, y caffai y rhai drwg fyned i uffern, lle y byddent yn llosgi byth bythoedd; a dywedodd na fuasai eu prif byth yn marw, na'u tân hwy byth yn diffodd, na fyddai iddynt ddim na heddwch na gorphwysfa yn dragwyddol. Dywedodd mai math o heint-dŷ oedd uffern, lle'r oedd aflendid yr holl fyd wedi ei gasglu, lle nid oedd dim i oeri yn y fflam frwmstanaidd yr hon oedd yn llosgi

yn dragwyddol; ei fod yn ddiwaelod; ac y byddai *dynion* yno yn suddo—yn suddo i drueni tragwyddol. Yr oedd yn ofnadwy dim ond i wrando ar y desgrifiad o hono, ond yr oedd y pregethwr yn llefaru o gyflawnder ei galon, ac yr oedd yr holl fobl mewn dychryn ofnadwy. Yr oedd y ddaear, meddai efe, wedi ei melldithio, ac yr oedd dyn wedi ei felldithio, ac yr oeddent oll yn suddo'n gyflym cyflym i bwll tragwyddol distryw; y byddai ychydig feallai yn gadwedig, ond nid oedd un gobaith iddynt oddieithr iddynt gredu y cwbl a ddywedai y pregethwr.

Ond, y tu allan, yr oedd yr adar bach yn canu mor llawen, a'r haul yn dysgleirio mor wresog, yr oedd fel pe byddai pob aderyn bach yn dywedyd, "Y mae Duw mor anfeidrol yn ei ddaioni tuag atom oll." Y tu allan i'r eglwys nid oedd dim yn y byd yn debyg i'r hyn a ddywedai y pregethwr.

Yn yr hwyr, tuag amser gorphwys, gwelodd y pregethwr ei wraig yn ddistaw ac yn ddwfn mewn myfyrdod. "Beth yw y mater arnat ti?" meddai efe.

"Y mater!" meddai hi, "y mater yw nad wyf fi ddim yn alluog i ddwyn fy meddyliau ynghyd; nid ydwyf alluog i amgyffred yn hollol yr hyn a ddywedasoch, fod cynnifer o ddynion yn annuwiol, ac y bydd yn rhaid iddynt oll i losgi byth bythoedd! byth bythoedd!! O Arglwydd, pa hyd! Nid wyf fi ond menyw wael, bechadurus, ond nis gallwn i byth fod o'r galon i adael hyd yn oed y pechadur truenusaf i losgi am byth; a pha fodd, ynte, y gallai Duw wneud hyny, yr hwn sydd mor anfeidrol yn ei ddaioni, yr hwn sydd yn gwybod sut y mae'r drwg yn dyfod o'r tu allan ac o'r tu mewn? Na, nis gallaf amgyffred hyn er i chwi haeru ei fod yn wir."

* * * * * * *

Yr Hydref ydoedd. Yr oedd y dail yn syrthio oddiar y coed, yr oedd y pregethwr llym, difrifol, yn eistedd wrth achwyn gwely'r tlawd, yr oedd credadyn duwiol yn cau ei llygaid—gwraig y pregethwr yn marw.

"Os oes rhyw un all gael gorphwysfa yn y bedd, a thrugaredd gyda'i Duw, tydi ydyw yr un hono," meddai'r pregethwr; ac efe a blethodd ei ddwylaw, ac a weddiodd dros y marw.

Ac fe'i cludwyd hi i'w bedd. Treiglodd dau ddeigryn mawr i waered dros ruddiau'r dyn difrifol.

Ac yn lletty'r pregethwr yr oedd y cyfan yn ddistaw ac yn anghyfanedd. Yr oedd haul y tŷ, hwnt wedi diffodd, yr oedd hi wedi myned i'w hir gartref.

Yr oedd yn nos: yr oedd awel oer yn chwythu dros ben y pregethwr; agorodd ei lygaid, ac yr oedd yn ymddangos iddo fel pe byddai y lloer yn dysgleirio i'w ystafell, ond nid oedd y lloer yn dysgleirio dim; ffurf dynol ydoedd, yr hwn oedd yn sefyll ar bwys ei wely; gwelodd yspryd ei wraig trangoedig; yr oedd ei golwg yn brudd iawn, ac ymddangosai fel pe byddai arni chwant dywedyd rhywbeth wrtho.

Cododd ei hunan i fynu yn y gwely, ac estynodd ei freichiau tuag atti hi. "Ac a ydyw tragwyddol orphwysfa yn cael ei wrthod i *ti* hefyd? A oes rhaid i ti ddioddef? Tydi, y goreu, y ffyddlonaf?"

Plygodd y marw ei phen i arwyddo cydsyniad, a gosododd ei llaw ar ei mynwes.

"A allaf fi fynnu gorphwysfa i ti?

"Gelli," oedd yr atteb.

"A pha fodd?"

"Dyro i mi flewyn, blewyn yn unig o wallt oddiar ben y pechadur, tân

yr hwn ni ddiffydd byth, y pechadur a ddamniodd Duw i boenau tragwyddol yn uffern."

"Ac y mae mor hawdd a hyny dy ryddhau di, yr un bur, 'run ffyddlon!" meddai efe.

"Canlyn di fi," meddai'r marw. "Cei hofio wrth fy ochr, i ba le bynag y byddo dy feddyliau yn dy gyfarwyddo; y mae cymmaint a hyny yn cael ei ganiatau i ni. Yn anweledig i ddynion, gallwn ymweled a'u cilfachau mwyaf dirgel; ond mae yn rhaid i ti ddangos a llaw di-grŷn y dyn sydd wedi ei ddedfrydu i boenau tragwyddol, ac y mae yn rhaid ei gael allan cyn caniad y ceiliog."

Ac yn gyflym, fel pe byddent yn cael eu cludo ar adenydd meddwl, cyrhaeddasant y Ddinas Fawr, ac ar wèlydd y tai gwelasant yn dysgleirio mewn llythyrenau o dân, enwau y pechodau marwol:—Balchder, Trachwant, Meddwdod, Cnawdolrwydd; mewn gair holl saethau bwa'r pechodau. "Ië, fel yr oeddwn yn credu, fel yr oeddwn yn gwybod," meddai'r pregethwr, "y mae y rhai hyny yn trigo yma sydd wedi eu dedfrydu i'r fflamiau tragwyddol." A hwy a safasant o flaen drws ag oedd wedi ei oleuo yn ysplenydd. Ac fe safai'r drysor yno yn wisgedig mewn felfed a sidan, a ffon â bwlyn arian yn ei law. "Y mae ein dawns-gymmanfa ni bron yn ogystal ag eiddo'r Brenin," meddai efe, ac efe a drôdd ei wyneb at y dorf fawr oedd yn llanw yr heolydd.

"O! ddynionach tlawd, y rhai ydych oll yn syllu trwy'r drysau, nid ydych oll mewn cydmariaeth â mi ond pentwr o garpiau."

"Balchder," meddai'r marw, "a weli di ef?"

"Ef? *Hwna?*"

"Ond *ffwl* yw hwna," meddai'r pregethwr, "dim ond ffwl, ac ni chaiff ei ddamnio i dân a phoenau tragwyddol." "Dim ond ffwl," adseiniodd y geiriau trwy holl annedd Balchder, canys dyna beth oeddynt yno i gyd.

A hwy a hedasant at bedair gwàl noeth y cybydd, lle yr oedd hen wr yn wasgedig ac yn crynu gan oerfel, yr hwn oedd yn ymwadu a bwyd a diod, ac yn ymlynu a'i holl feddwl wrth ei arian. Hwy a welsant pa fodd y neidiai, fel un yn llosgi mewn twymyn, oddiar ei wely o wellt tlawd, ac y tynnai garreg o'r wàl lle'r oedd ei docynau aur yn guddiedig mewn hen hosan, a pha fodd y chwiliai ei wasgod garpiog yn yr hon yr oedd pisynau aur wedi eu gwnio, a pha fodd y crynai ei fysedd llaith. Y mae yn dost; dyna *wallgofrwydd*, gwallgofrwydd digysur, llawn o drueni ac o freuddwydion echrydus.

A hwy a ymadawsant a'r lle hwnw ar frys, ac a safasant o flaen celloedd carchar, lle'r oedd y carcharorion yn cysgu yn rhesi hirion, ochr yn ochr.

Tasgodd un o honynt o'i gwsg fel creadur rheibus, gan wneuthur lleisiau ofnadwy. Tarawodd ei benelin esgyrnog ar draws yr un a gysgai yn nesaf atto, trôdd hwnw ei hunan yn gysglyd tuag atto a dywedodd:—"Cau dy geg, di anifail, a chysg—y mae yn nos."

"Bob nos," meddai'r llall, "ïe, bob nos y mae yn dyfod, ac yn udo, ac yn fy mhoeni i. Yng ngwres y foment yr ydwyf wedi gwneuthur pethau diystyr. Cefais fy ngeni a chennyf dueddiad drwg, yr hwn sy wedi fy nwyn yma am yr ail waith. Ond fel y troseddais, felly yr wyf yn cael fy nghospi. Un peth yn unig yr ydwyf heb gyffesu. Fel yr oeddwn yn gadael y lle hwn ar ol fy ngharchariad cyntaf, ac yn pasio heibio anneddle fy meistr, yr oedd

un meddwl ar ol y llall yn berwi o fy mewn. Tynais fatsien ar draws y wàl, aeth rywfaint yn rhy agos at y tô gwellt; fe losgodd pob peth; yr oedd pob peth *mewn fflamiau, megys ag yr wyf finnau yn awr*. Rhoddais fy help fy hunan i achub y dynion a'r anifeiliaid. Ni losgodd dim ag oedd a bywyd ynddo ond haid o golomenod a gwarchod-gi y tŷ. Nid oeddwn i wedi meddwl am dano ef. Gallesid ei glywed yn udo; a'r udlef hwn yr wyf finnau'n glywed pan byddwyf am gysgu; ac os cysgaf y mae'r ci yn dyfod drachefn mor fawr ac mor hirflewog! Y mae'n gosod ei hun ar fy mynwes, yn udo, yn pwyso arnaf, ac yn fy mogi." Ac fe redodd y gwaed i lygaid y dyn gorphwyllog, a thaflodd ei hun, ar draws ei gyfaill, a tharawodd ef a'i ddwrn cauedig.

"Y mae'r hurtyn accw druan yn cael un o'i ffitiau ammhwyllog etto," ydoedd iaith y rhai o amgylch; ac ymaflodd y carcharorion eraill ynddo, plygasant ef yn ddau-ddyblig, hyd nes cawsant ei ben rhwng ei benliniau; yna hwy a'i rhwymasant ef, tra 'r oedd y gwaed yn tasgu o'i lygaid ac o bob chwysdwll, "Yr ydych yn lladd y dyn yna, druan," gwaeddai'r pregethwr; ac estynodd ei law allan malfai i *amddiffyn* y pechadur, *y pechadur druan*, yr hwn oedd hyd yn oed yma yn gorfod gwneuthur y fath iawn dros ei gamweddau.

Newidiwyd yr arddangos-len. Hedasant trwy neuaddau'r cyfoethog, a thrwy fwthynau'r tlawd. Pasiodd Cnawdolrwydd, Cenfigen, a'r holl bechodau marwol yn eu tro heibio iddynt, tra'r oedd angel yn arwain ac yn darllen iddynt droseddiadau'r pechaduriaid, ynghyd a'r esgusawd drostynt. Gwan yn wir oedd hyn o fiaen Duw, ond y mae Duw yn adwaen y galon, y mae yn gwybod yr holl ddrwg sydd yn dyfod o'r tu allan ac o'r tu mewn, yr hwn sydd Drugaredd a Chariad. Crynai llaw'r pregethwr. Ni anturiodd efe i estyn ei law allan i dynu blewyn oddiar ben unrhyw bechadur. Ffrydiodd y dagrau o'i lygaid fel dyfroedd trugaredd a chariad, y rhai ydynt yn diffodd tânau uffern. Yna canodd y ceiliog.

"Drugarocaf Dad! ti a roddi iddi y gorphwysfa hwnw yn y bedd, yr hwn nid wyf fi wedi bod yn alluog i'w gaffael iddi hi."

"Yr ydwyf yn ei fwynhau eisoes," meddai'r marw; "dy farn galed di, dy feddyliau prudd am Dduw, ac am ei greaduriaid, a'm gyrasant i attat ti, Dysg natur dyn. Y mae hyd yn oed yn y gwaethaf ran o Dduw, rhan a gaiff y fuddugoliaeth ar, ac a ddiffydd dânau uffern.

Argraphwyd cusan ar wefusau'r pregethwr, ac yr oedd wedi dyfod yn oleu oddiamgylch iddo. Yr oedd goleuni llachar y nef yn ei ystafell lle'r oedd ei wraig, etto yn fyw ac yn llawn o gariad, wedi ei ddeffro o ganol breuddwyd yr hon a ddanfonasid gan Dduw.

Mr. Gol.,—Dichon fod rhai pethau yng ngwisg y breuddwyd uchod nad ydynt yn hollol gymmeradwy gennych, etto y mae'r wers a fwriedir ddysgu ynddo yn wers dda. Dysged darllenwyr yr YMOFYNYDD bob amser i ddihatru'r wisg er cael gafael yn y wers. Y maent bob amser yn tori magl y gneuen pan byddont am gael y cnewyllyn, bydded iddynt yn yr un modd i arfer eu Rheswm a'u Deall er cael allan y cnewyllyn mewn pethau a berthynant i'r meddwl a'r galon, a pheidio ymladd am y masgl a cholli'r cnewyllyn. Gobeithio, Mr. Gol., y gwelwch ryw gymmwysder ynddo i dudalenau eich cylchiolyn rhydd a diragfarn.

Yr eiddoch, &c., Y. Z.

I'R RHAI SYDD YN CREDU MEWN ADFERIAD.

"WEDI eich ffafrio a golygiadau mwy cyffredinol am gariad Duw, ac amcan daionus a thueddiad ei holl oruchwyliaethau, nag y mae Crist'nogion eraill yn eu dàl, dylai eich cariad at Dduw fod yn fwy gwresog, a'ch ymroddiad iddo yn fwy cyflawn. Ymdrechwch yn ddiwyd i weithredu yn unol a'ch egwyddorion, a bydded i'r anogaethau a roddant i gael eu cyflawn ddylanwad. Efelychwch gariad eich Tad Nefol, a'i ddaioni, a'i drugaredd tuag at blant dynion. Bydded i'ch golygiadau mwy ëang i'ch ennyn i wneuthur ymdrechiadau mwy er lles eraill, yn neillduol i ddwyn yn y blaen eu gwelliant moesol a chrefyddol. Megys y gellwch weddio dros bawb gyda mwy o hyder, felly gweithiwch er eu daioni gyda mwy o ddiwydrwydd; am eich bod yn credu fod Duw 'yn ewyllysio bod *pob dyn* yn gadwedig. a'i ddyfod i wybodaeth y gwirionedd.' Bydded yr egwyddor o gariad cyffredinol ac anghyfnewidiol, yr hwn yr ydych yn ystyried ei fod yn Nuw, yn aros gyda chwithau yn egwyddor reddfol.

Dangoswch nad oes eisiau dylanwad dychryn arnoch i'ch cymhell at eich dyledswydd; dangoswch eich bod yn cael eich tynu gan rwymau cariad, eich bod yn ymhyfrydu i ddynesu at Dduw, ac yn cael fod ei wasanaeth ef yn berffaith ryddid; fod ei gynteddau yn hawddgar genych, a'i waith yn bleserus. Na foed genych neb yn elynion, ond anwybodaeth, ofergoeledd a phechod, a pha beth bynag sydd yn rwystr i ddedwyddwch a gwelliant moesol dyn. Na roddwch le i lid a digofaint a malais personol o'ch mewn. Llethwch gyffroadau cyntaf beth bynag sydd yn groes i'r cariad hwnw a ddylai reoli ynoch, a'r hwn ydyw bywyd a sylwedd eich crefydd.

Cofiwch fod peth bynag y mae Duw wedi ei wneuthur drosoch, wedi cael ei wneuthur i'r diben i'ch gwneud chwi yn fendith i eraill. Y daioni cyffredinol mwyaf yw ei amcan ef, hyny ddylai fod eich amcan chwithau. Beth bynag ydych chwi, a pha beth bynag sydd genych, yr ydych wedi eu derbyn oddiwrtho ef, ac y mae efe wedi eu rhoddi, fel, wedi eich bendithio y byddoch chwithau yn fendith.

Bydded i'ch egwyddorion i'ch cysuro a'ch cynnal ynghanol holl ymddangosiadau tywyll rhagluniaeth, ac ynghanol yr annhrefn a'r drygfyd a weloch yn y byd. Oblegid yr Arglwydd Dduw Hollalluog sydd yn teyrnasu, ac y mae yn dwyn oddiamgylch ei amcanion grasusol ei hun, ac efe a wna i bob peth i weithio allan er daioni. Bydd canlyniad goruchwyliaethau ei rhagluniaeth yn oleuni cyffredinol, yn fywyd, yn ogoniant, ac yn fendith.

R. WRIGHT.

GWERSI BYRION.

Pe byddai holl ddynolryw ond un o'r un farn, ac un person yn unig o farn wahanol, ni fyddai yn fwy cyfiawn i ddynolryw ddystewi yr un person hwnw, nag y byddai iddo ef, pe ganddo'r gallu, i ddystewi dynolryw.—J. STUART MILL.

Os dyry y gwirionedd dramgwydd, gwell hyny nag i'r gwirionedd i gael ei guddio. —JEROME.

Y mae beth bynag sydd yn amlwg yn tynu oddiwrth ddaioni a chyfiawnder Duw, neu rhyw rai eraill o'i berffeithderau yn sicr o fod yn anghywir *(false)*, gannad pa awdurdod bynag y dichon fod drosto, a channad pa mor ddysgedig a duwiol; ïe, er ei fod yn cymmeryd arno ei fod yn cael ei gefnogi gan destunau ag ymadroddion o'r Ysgrythyrau Sanctaidd.—ARCHESGOB TILLOTSON.

PWY FYDD CADWEDIG?

Allan o'r Christian.

At Mr. ——,

Syr,—Yr wyf yn cofio y diwrnod y buoch chwi yn siarad yn agos i Orsaf Cledrffordd,—pryd y darfu i chwi ein hyspysu mai eich cred chwi oedd hyn, sef, os buasai dyn yn cerdded yn unol â'r goleuni ag oedd Duw wedi ei roddi iddo, a gwneuthur yr hyn a welai yn iawn, a gwrthod y drwg, y buasai Duw yn ei dderbyn ef. Yn awr, gan eich bod chwi yn awyddus i'r personau ag y rhoddais i y *Tracts* iddynt i'w cydmaru hwynt â'r Ysgrythyr, yr hyn beth yr ydwyf fi wedi garu a'i gymeradwyo am agos i ddeugain mlynedd.—Teimlaf yn ddiolchar i chwi os rhoddwch i mi brawf allan o'r Ysgrythyrau, yn dangos mai dyna y cyfan y mae Duw yn ei ofyn gan ddyn.

Yr eiddoch yn barchus, ——.

ATTEB.

Yr wyf fi yn ystyried pob ymadrodd, yn yr hwn y dywedir fod Duw yn gyfiawn, yn brawf o'r gosodiad uchod; tra yr ydwyf yn ystyried yr ymadroddion hyny, yn y rhai y dywedir fod Duw yn dda, cariadus, grasol, daionus i bawb, yn awyddus am iachawdwriaeth pawb; ac yn y rhai y dywedir, ac y siaradir am dano fel Tad, fel Tad yr ysprydoedd; fel profion cadarnach, os yw bossibl, o wirionedd yr un gosodiad. Yr wyf yn ystyried fod y fath ymadroddion ag sydd yn dywedyd fod Duw yn wobrwywr y rhai sydd yn ei geisio â'u holl egni; "nad yw Efe yn dderbyniwr wyneb; ond ymhob cenedl, y neb sydd yn ei ofni Ef, ac yn gweithredu cyfiawnder, sydd gymeradwy ganddo Ef." Y bydd iddo Ef i farnu y byd yn unol a chyfiawnder, pob dyn yn ol ei weithredoedd, fel profion ychwanegol o'r un gwirionedd. Yr wyf yn cymmeryd dammeg y Talentau yn Efengyl Matthew, Pen. 25, fel prawf neu eglurhad pellach o hono. Mewn gair, yr wyf yn cymmeryd canol swn y datguddiad, yr oll ydym yn wybod am Dduw, ac o'i ffyrdd, fel profion nerthol, nas gall Efe fyth ofyn i ddyn i gyflawni yr hyn sydd *amhossibl* iddo i'w gyflawni; ac nas gall ychwaith ofyn iddo i arferyd, neu i wneud defnydd o'r hyn na dderbyniodd erioed.

A allai, a ydyw yn beth rhesymol i gredu y gallasai unrhyw ddyn cyfiawn, cariadus neu rhesymol ofyn i neb o'i gydgreaduriaid i wneuthur yr hyn ag y maent yn hollol analluog o hono? A allai, ydyw yn beth rhesymol i gredu y gallasai unrhyw ddyn, onest, a chariadus fod yn ddigllon wrth neb o'r teulu dynol am beidio gwneuthur yn well na'u goreu, ac am beidio dangos mwy o allu nag y maent yn feddianol arno? A fuasai unrhyw *dad* yn mhlith dynion yn ddigllon wrth ei blant, os y gwyddai yn eithaf da eu bod wedi gwneuthur yr hyn oedd oreu hyd eithaf eu gwybodaeth? A allasai unrhyw dad cariadus, cyfiawn a da, gospi ei blant am beidio gwneuthur yr hyn nad oeddynt yn feddianol ar allu, nac ar wybodaeth i'w wneuthur? Pe buaswn i fy hunan yn cospi fy mhlentyn, pan oeddwn yn gwybod ei fod wedi gweithredu yn unol â'r goleuni a'r wybodaeth ag oedd yn feddianol arno, beth fuasech i ddywedyd wrthyf? Oni fuasech yn fy ngalw, ac yn fy ystyried yn ddyn creulawn, ffyrnig, ciaidd, anghyfiawn, ac afresymol? Os felly, sut y gall anghyfiawnder, neu greulondeb, fod yn iawn yn Nuw? Os ydych yn barod i gondemnio anghyfiawnder, a chreulondeb mewn dyn, sut y mae yn bossibl y gellwch barchu, caru, ac addoli Duw anghyfiawn a chreulawn? Ffolineb, a ffolineb o'r mwyaf hefyd, yw meddwl am hyny.

Nid yw yr athrawiaethau sydd yn dysgu fod Duw yn gorchymyn i ddynion i wneuthur yr hyn na chawsant eu donio â gallu i'w wneuthur,—ei fod Ef wedi eu cynnysgaeddu â nattur hollol lygredig, ac etto yn gofyn iddynt fod yn berffaith sanctaidd—ei fod Ef yn ddigofus wrth ei blant am gyflawni yr hyn ni allasent lai na'i gyflawni; neu ynte y gall, ac y bydd iddo Ef wrthod derbyn, caru, a bendithio y dyn hwnw sydd yn gweithredu yn ol y gallu ag y mae yn feddiancl arno, a'r goleuni sydd ynddo, ddim yn amgen na'r dychymygion mwyaf dychrynllyd, ofnadwy, ac arswydus a ddaeth i feddwl dyn erioed.

Y mae yn ddirgelwch sut y gall dynion gredu y fath athrawiaethau. A bod yn sicr, fy nghyfaill, os y gallwch chwi oddef eich hunan mewn credu y fath ddrychfeddyliau tywyll, ac arswydus, ni ddylech fod yn anoddefgar tuag attaf fi; oblegid y mae yn amhossibl i mi gredu unrhyw beth sydd yn waeth. M.

[Tebyg y barna rhai o'n darllenwyr fod yr ohebiaeth uchod wedi cael ei gadael yn yr haner, o ddiffyg sylwadau desparthydd y *tracts* mewn gwrthatteb i "M." Mae sylwadau "M" yn dda mor belled ag y maent yn cyrhaedd. Nis gallai ein Gohebydd roddi rhagor na'r hyn a welodd yn y *Christian*. Diau mai wrth eu gweithredoedd y bernir dynion yn y dydd olaf. Ond rhaid addef mai rheol wael a gwagsaw ydyw, i adael i bob dyn i ymfoddloni ar y goleuni sydd ganddo, ac i ymddwyn yn ol hyny. Mae'n wir nas gall neb wneud yn well na dilyn y goleuni sydd ganddo. Ond gocheled ef nad yw y cyfryw oleuni yn dywyllwch. Y mae lle i ofni fod hyny yn bod yn rhy aml. A dyma debygem lle y mae y cwestiwn yn sefyll: Beth yw bod yn gadwedig? Pe y ceid y dysgawdwyr a'r crefyddwyr i gyttuno ar hyny o gwestiwn, byddai darfod yn fuan ar lawer o'r dadleuon ag sydd yn awr. Ac yr y'm yn mron a meddwl pe buasai Dosparthwr y "tracts" ddim ond dangos ei fod yn rhoddi goleuni adnewyddol a *gwir* oleuni ar y cwestiwn pwysig o gadwedigaeth dyn, y buasai "M" i lwyr gyttuno ag ef. Pa fodd bynag y mae pob dyn yn dymuno cadwedigaeth a dedwyddwch, ac y mae yn ei geisio a'i gyrchu; yn rhy aml mae'n wir yn ei gamsynied, ac er ei siomedigaeth; ond bob amser yn reddfol ac yn wirioneddol; yn fynych, fel mae gwaetha'r modd, yn ymofyn am gadwedigaeth a dedwyddwch lle nad yw hyny i'w gael; ond etto mae'r dymuniad yn barhaus a chyffredinol. A chyda golwg ar hyny, nid yw yn ddigon i alw ar ddynion i ymfoddloni ar y goleuni sydd ganddynt, ac i ymddwyn yn ol hyny. Gweddiwn a cheisiwn bawb am ragor o oleuni, ar y pwngc yma ac ar byngciau pwysig eraill, ac ymdrechwn i'w gaél.—Gol.]

TETRARCHIAID.

Gwedi darostyngiad yr Iuddewon gan y Rhufeiniaid, hwy a osodasant lywodraethwyr o'r dosparth hyny o heddynadon Rhufeinaidd a elwir Tetrachiaid, ar rai taleithiau yn Judea. Fe gafodd y swydd Tetrarch ei dechreuad oddiwrth y Gauliaid. Gwnaethant ar ryw amser ruthriad i mewn i Asia Leiaf, a llwyddasant i gymeryd oddiwrth frenin Bythynia y rhan hono o'i diriogaeth a elwir oddiwrth eu henwau eu hunain—Galatia. Cynhwysai y Gauliaid, a wnaethant y goresgyniad hwn, dri lwyth, ac yr oedd pob llwyth yn cael ei ranu i bedwar rhan, neu detrarchaeth, a phob un o'r cyfryw yn ufyddhau i'w detrarch. Yr oedd y tetrarch yma hefyd o dan lywodraeth y

brenin. Yn mhen amser ar ol hyn daeth y teitl tetrarch yn gymhwysedig i unrhyw fath o lywodraethwr o dan ryw frenin neu ymherawdwr, heb unrhyw gyfeiriad at y ffaith, pa un a oeddent yn llywodraethu neu beidio ar un rhan o bedwar, yn gymhwys, o lwyth neu bobl, megys yr oedd yn cael ei ystyried yn flaenorol.

Yr oedd Herod Antipas a Philip, er nad oeddent yn llywodraethu ar gymaint ag un ran o bedwar o Judea yn cael eu galw yn detrarchiaid.—Matthew xiv. 1; Luc ix. 7; Actau xiii. 1.

Er fod y dosparth hwn o lywodraethwyr yn ymddibynol ar Cesar—yr ymherawdwr Rhufeinaidd—etto llywodraethent ar y bobl oedd yn cael eu rhoddi o dan eu hawdurdod gymaint yn ol eu dewisiad a'u hewyllys eu hunain a phe buasent heb fod yn ymddibynu dim yn y mesur lleiaf arno.

Yr oeddent yn is mewn gradd na'r Ethnarchiaid, y rhai, er nad oeddent yn cymeryd arnynt yr enw brenin, oeddent yn cael eu cyfarch â'r teitl hwnw gan eu deiliaid; megys, er enghraifft, yr oedd yn achos Archelaus.—Matthew ii. 22; Josephus xvii. 11, 4. *Cyf.* J. E.

TRIOEDD BARDDAS.*

Barnwn fod y Trioedd a ganlyn, fel dernyn cywrain a nodedig o ddysgeidiaeth draddodiadol hen feirdd Ynys Prydain, ynghylch *Duw, bywyd dyfodol, a thrawsfudiad eneidiau*, yn teilyngu, o leiaf i gael eu gosod etto ger bron cenedl y Cymry; a hyny, air yn nghair fel eu cyhoeddwyd gan Iolo Morganwg yn y flwyddyn 1794, yn ei "*Lyric Poems*," *vol.* ii. *pp.* 233, *&c.* A chredwn y byddant yn dderbyniol ac yn ddiddorol iawn i ddarllenwyr yr Ymofynydd. Nid y'm ni yn awr yn myned i feirniadu arnynt; ac wrth gwrs nid ydym yn myned i gymmeradwyo a chymhell y golygiadau a roddir yn y Trioedd yma, os yn wir yr ydym yn eu deall. Ond y maent wedi bod, ac yn parhau i fod yn wrthddrych sylw neillduol, ac yn destun dadleuaeth gyda phrif lenorion a hynafiaethwyr yr oes, ar y Cyfandir yn enwedig.

Y mae o'n blaen gyhoeddiad o'r Trioedd hyn, a wnaed yn 1856, (ail argraffiad) yn Geneva gan M. Adolphe Pictet, dan y teitl *Le Mystère des Bardes de l' Ile de Bretagne, ou, La Doctrine des Bardes Gallois du Moyen Age, sur Dieu, la vie future et la Transmigration des Ames.* Hyny yw, *Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain: neu Athrawiaeth Beirdd Cymreig y Ganol Oes, ynyhylch Duw, Bywyd Dyfodol, a Thrawsfudiad eneidiau*; ynghyd a chyfieithiad i'r Ffrengaeg, a nodiadau eglurhäol—pa rai nid ellir eu rhoddi yma ar hyn o bryd.

Bydd llawer o'n darllenwyr, yn ddiau, fel ninau, i ddisgwyl, nid yn ofer, hyderwn, am feirniadaeth ar y pwngc oddiwrth Mr. Stephens o Ferthyr, ac yn enwedig parth awdurdoldeb a dilysrwydd y Trioedd hyn.

Ond y mae yn gymhwys i nodi fod Golygydd y "*Cambrian Journal*," y diweddar Ab Ithel credwn, (*Camb. Journ.*, *pt.* 16, *Dec.*, 1857) yn dywedyd fod Iolo, rhywle yn ei MSS., yn rhoddi yr hanes a ganlyn ynghylch cyfansoddiad a tharddiad y Trioedd sydd dan sylw:—

"Y Trioedd yma ydynt wedi eu pigo allan o gasgliad mewn Llawysgrifen

*Trioedd Barddas (Triades of Bardism).] i.e. Sacerdotal Triades, from *Bardd* in its primeval acceptation of *Priest*.

o waith Llywelyn Sion, un o Feirdd Morganwg, oddeutu O. C. 1560. O'r llawysgrif hono y mae genyf fi adysgrif *(transcript)*. Y wreiddiol sydd yn meddiant Mr. Richard Bradford, o'r Bettws, ger Penybont, Morganwg. Y casgliad hwnw a wnaed allan o amryw lawysgrifau o gryn hender, a rhai o honynt yn hen iawn. Y rhai hyn ynghyd â'u hawduron a enwir *(are mentioned)*, ac y mae y rhan fwyaf, neu yr oll o honynt ar glawr hyd heddyw." Ar hyn diau y gofynir, yn mha le yr *enwir* y cyfryw lawysgrifau, ac yn mha le y maent ar gael? Maes o law, gobeithio, deuir i wybod.

1. Tri un cyntefig y sydd, ag nis gellir amgen nag un o honynt, Un Duw; Un Gwirionedd; ag Un Pwngc Rhyddyd, sef y bydd lle bo cydbwys pob gwrth.

2. Tripheth tardd o'r tri Un cyntefig, pob Bywyd; pob Daioni, a phob Gallu.

3. O dri anghenfod y mae Duw, sef y mwyaf parth bywyd; y mwyaf parth gwybod; a'r mwyaf parth nerth; ag nis gellir namyn un o'r mwyaf ar unpeth.

4. Tri pheth nis dichon Duw lai na bod, a ddylai'r da cyflawn; a ddymunai'r da cyflawn; ag a ddichon y da cyflawn.

5. Tri thystion Duw am y wnaeth ag a wnâ, Gallu anfeidrol; Gwybodaeth anfeidrol; a Chariad anfeidrol; gan nad oes nas dichon, nas gwyr, ag nas mynn, y rhain.

6. Tri phendod trefn gwaith Duw, er peri pob peth; dirymmu'r drwg; nerthu'r da; ag amlygu pob gwahaniaeth; fel y gwyper a ddylai oddiwrth na ddylai fod.

7. Tripheth nis gall Duw lai na'u gwneuthur, y mwyaf ei les; y mwyaf ei eisiau; a'r mwyaf er harddwch o bob peth.

8. Tri chadernyd hanfod, nis gellir amgen; nid rhaid amgen; ag nis gellir gwell gan feddwl; ag yn hynn y diwedd pob peth.

9. Tripheth dîr y byddant; eitha Gallu; eitha deall; ag eitha cariad Duw.

10. Tri bannogion Duw; Bywyd cyfoll; Gwybodaeth cyfoll; a Chadernyd cyfoll.

11. Tri achos bywedigion, Cariad Duw gan eitha deall cyflawn; Deall Duw yn gwybod eitha moddion; a Nerth Duw gan eitha Mynn Cariad a Deall.

12. Tri chylch hanfod y sydd, Cylch y Ceugant*, lle nid oes namyn Duw, na byw na marw, ag nid oes namyn Duw a eili ei dreiglo; Cylch yr Abred, lle pob Ansawdd-hanfod o'r marw, a Dyn a'i treiglwys; Cylch y Gwynfyd, lle pob Ansawdd-hanfod o'r Byw, a Dyn a'i treigla yn y Nef.

13. Tri chyflwr hanfod Bywedigion, Cyflwr Abred† yn Annwn; Cyflwr Ryddyd yn Nyndod; a Chyflwr Cariad, sef Gwynfyd yn y Nef.

14. Tri Angen pob hanfod wrth fywyd, dechre yn Annwn; Treigl yn Abred; a Chyflawnder yn y Nef, sef Cylch y Gwynfyd; ag heb hyn o dripheth nis gellir unpeth namyn Duw.

15. Tripheth Angen yn Abred, y Lleiaf o bob byw, ag o hynny dechre;

* *Ceugant*.] in its etymological sense signifies the *Circle of Vacuity*; in its metaphysical acceptatation, here, it signifies the immense void beyond the bounds of the *material Creation*, into which none but the Deity can penetrate.

† *Abred*, from the root *pred*, whence *Ispred*, divestigations; or things rejected; and *hybred*, wanting, or subject, to be divestigated.

Defnydd pob peth, ag o hynny cynnydd, yr hynn nis gellir mewn cyflwr amgen; a llunio pob peth o'r marw, ag o hynny Gwanhanfod.

16. Tripheth nis gellir amgen na'u bod ar bob byw gan gyfiawnder Duw; Cydymoddef yn Abred, can heb hynny ni cheylai neb gyflawn wybod ar ddim; Cydran cydfraint ynghariad Duw, a Chyttiwedd, gan allu Duw wrth a fo cyfiawn a thrugar.

17. Tri achos angen Abred, cynull defnydd pob Ansawdd; cynull Gwybodaeth pob peth; a chynnull Nerth er gorfod pob gwrth a Chythraul, ag ymddiosg a'r drwg; ag heb hynn a dreiglo pob cyflwr byw, nis gellir Cyflawn ar un byw na rhyw.

18. Tri phrif anffawd Abred, Angen, Anghof, ag Angau.

19. Tri phen Angen y sydd cynn cyflwyr Wybodaeth, treiglo'r Abred; treiglo'r Gwynfyd; a Chof o'r cyfan hyd yn Annwn.

20. Tri chynghyd anhepcor Abred, Anghyfraith gan nas gellir amgen; Dianc Angau* rhag drwg a Chythraul; a Chynnydd bywyd a Daioni, gan ymddiosg a'r drwg yn niainge Angau; a hynn o Gariad Duw yn gafaelu ar bob peth.

21. Tri pheiriant Duw yn Abred er gorfod Drwg a Chythraul, a diange oddiwrthynt at Wynfyd, Angen; Anghof; ag Angau.

22. Tri chynghyfoedion y sydd, Dyn; Rhyddyd; a Goleuni.

23. Tri Angenorfod Dyn, Dioddef, Newid, a Dewis; a chan allu dewis ni wyper am y ddau arall cyn digwydd.

24. Tri Chydgyfran Dyn, Abred a Gwynfyd; Angen a Rhyddyd, a Drwg a Da; ag oll yn gydbwys; a gallu gau ddyn ymylynn wrth yr un fynno.

25. O dripheth y syrth Angen Abred ar Ddyn, Anymgais a Gwybodaeth; anymlyn a'r Da; ag ymlyn a'r Drwg, sef y syrth, gan hynn o bethau, hyd ei gydryw yn Abred, a threiglo'n ei ol fal y bu gyntaf.

26. O dripheth y syrthier yn Abred gan Angen, er ymlynu ymhob peth arall wrth y Da, o Falchder hyd Annwn; o Anwiredd hyd Obryn; ag o Anhrugaredd, hyd Gydfil, a threiglo'n ol at Ddyndod fal o'r blaen.

27. Tri chyntefigaeth cyflwr Dyn, cynnull cyntaf ar Wybodaeth, Cariad, a Nerth, heb Angau; ag nis gellir hynn ym mraint Rhydd a Dewis cyn Dyndod: a'r tri hynn a elwir y tri gortrech.

28. Tri gortrech ar Ddrwg a Chythraul y sydd; Gwybodaeth Cariad, a Gallu; gan y gwyr, y mynn, ag y dichon y rhain yn eu cyngbyd y pethau a fynnont, ag ynghyflwr Dyn eu dechre, a' parhau dros fyth.

29. Tri braint cyflwr Dyn, Cydbwys drwg a da, ag yna Cymhariaeth; Rhyddyd wrth Ddewis ag o hynny Barn a Dewis; a Chynnechre Gallu, ym mraint Barn a Dewis, gan eu rhaid cyn dim arall o wneuthur.

30. Tri gwahaniaeth angenorfod rhwng Dyn, a phob byw arall, a Duw; Ing ar Ddyn ag nis gellir ar Dduw; dechre ar Ddyn ag nis gellir ar Dduw; ag angen newid cyflwr olynol ynghylch y Gwynfyd ar Ddyn, o anoddef y Ceugant, ag nis gellir ar Dduw, gan allu pob dioddef, a hynny gan Wynfyd.

31. Tri chyntefigaeth Gwynfyd, Annrwg; Anneisiau; ag Annarfod.

32. Tri adfer Cylch y Gwynfyd, Awen gysefin; a gared gysefin; a Chof y cysefin; am nas gellir Gwynfyd hebddynt.

**Angau* (Death) signifies etymologically *Liberations*, being the plural of *Ang* (Liberation or Enlargement), *Diange* (Escape) is from the same root. *Dy* or *Di*, a prepositive, augmentative and frequentative, and *Ang*.

33. Tri gwahanfod pob byw gwrtharall; Awen; Côf; a Chanfod; sef y bydd cyflawn ar bobun, ag nas gellir cyfun y rhain ar un byw arall, a phob un yn gyflawn, ag nis gellir dau gyflawn ar ddim.

34. Tri pheth a roddwys Duw ar bob byw, sef Cyflawnder ei Ryw; Gwahander pen ei hun; a Bannogaeth Awen gysefin rhag arall; yna hunan cyfoll pob un gwrtharall.

35. O ddeall tripheth y bydd difant a gortrech ar bob drwg a marw; Ansawdd; Achos; a Pheiriant, a hynn a geir yn y gwynfyd.

36. Tri chadernyd gwybodaeth, darfod treiglo pob cyflwr bywyd; Cofio treiglo pob cyflwr a'i ddamwain; a gallu treiglo pob cyflwr fal y mynner, er prawf a barn: a hynn a gair ynghylch y Gwynfyd.

37. Tri bannogion pob byw ynghylch y Gwynfyd, Swydd, Braint, ag Awen, ag nis gellir dau'n bod yn Ungyfun ymhob peth, gan y bydd cyflawn pob un yn y bo bannog arno: ag nid oes cyflawn ar ddim heb y maint oll a ddichon fod o hono.

38. Tripheth nas gall namyn Duw, dioddef bythoedd y Ceugant; Cynghyd a phob cyflwr heb newidiaw, a rhoi gwell a newydd ar bob peth heb ei roi ar goll.

39. Tripheth nis gellir darfod byth arnynt gan angen eu galledigaeth; Dull hanfod; Ansawdd hanfod; a Lles hanfod, gan hynn byddant hyd fyth yn eu hannrwg, ai byw a marw ydynt, yn ymrafael hardd a daionus Cylch y Gwynfyd.

40. Tri rhagor newid cyflwr yn y Gwynfyd, Addysg; Harddwch, a Gorphwys rhag anallu dioddef y Ceugant a'r tragywyddol.

41. Tripheth sydd ar eu cynnydd, Tân, sef Goleuni; Deall, sef Gwirionedd; ag Enaid, sef Bywyd; a gorfod a wnant ar bob peth, ag yna diwedd Abred.

42. Tripheth y sydd ar eu difant; Tywyll; Anwir; a Marw.

43. Tripheth sy'n ymgadarnhau beunydd, gan fod mwyaf yr ymgais attynt, Cariad; Gwybodaeth; a Chyfiawnder.

44. Tripheth sy'n ymwanhau beunydd, gan faint pennaf yr ymgais yn eu gwrth; Cais; Camwedd; ag Anwybodaeth.

45. Tri chyflawnder Gwynfyd; Cyfran ymhob Ansawdd, ag Un cyflawn yn pennu; Cyfymddwyn a phob Awen, ag yn Un rhagori; Cariad at bob Byw a Bod, a thuag at Un, sef Duw, yn bennaf; ag yn y tri Un yma y saif Cyflawnder Nef a Gwynfyd.

46. Tri Angen Duw, Anfeidrol ger ei hun; Meidrol ger meidrol; a chyfun a phob cyflwr Bywydolion ynghylch y Gwynfyd.

SYLWADAU PELLACH AR DDIBEN Y NOS.

At un o blant y Forgefach.

Syr,—Mae'n debyg fod sylwadau yr enwog Allman, y diweddar C. C. Sturm ar *Ddiben y Nos*, y rhai a ddanfonwyd i'r Ymofynydd genyf fi, wedi creu ynoch gryn dipyn o awydd am ychydig o sylwadau ymhellach ar achosion y cyfnewidiadau parhaus sydd yn cymmeryd lle yn hyd dydd a nos. Y mae'r gorchwyl yn ymddangos i mi yn dra anhawdd, yn neillduol heb gynnorthwy

ffugrau darluniadol. Ond wele dreial, ac os methaf, ni fydd genych ond edrych i "Elfenau Seryddiaeth," un o'r llyfrau y cyfeiriodd Shadrach chwi ato, a chwi gewch eglurhad cyflawn.

Y mae ffurf y ddaear, fel y gwyddoch, yn agos bod yn grwn. Y mae'r tryfesur pegynawl ryw ychydig bach tua 26 milldir, neu un rhan o 300 yn llai na'r tryfesur cyhydeddol. Nid yw hyny ond tipyn bach iawn mewn cymhariaeth, llawer llai na gwahaniaeth tryfesurau eurafal *(orange)*. Ac nid yw mynyddoedd a dyffrynoedd y ddaear a'u cymharu â'r holl ddaear ond megys anwastadedd ar wyneb eurafal. Gallwn o'r goreu ynte ystyried y ddaear fel cronen neu bellen, neu glôb, ac y mae'r bellen hon yn ddyledus am ei goleuni a'i gwres i'r haul. Nid oes ond dwy ffordd y gellir ystyried fod y ddaear yn cael ei goleuo gan yr haul. 1. Trwy fod yr haul, yr hwn sy filiwn o weithiau yn fwy na'r ddaear, yn gwneuthur ei daith o amgylch iddi hi bob 24 awr, fel y mae yn ymddangosiadol o ddwyrain i orllewin, fel yr oedd Ptolemëus yn credu, ac fel y bu y byd yn credu am 1400 o flynyddau ar ei ol. 2. Trwy fod y ddaear yn troi o flaen yr haul, fel y trŷ gŵydd o flaen y tân, yr hyn sy lawer yn fwy rhesymol a llai trafferthus na chario'r tân o amgylch-ogylch i'r ŵydd. Hon yw y gyfundrefn Gopernicaidd, yr hon a dderbyniodd ei henw oddiwrth Copernicus, ac a dderbynir yn awr yn gyffredin fel y wir gyfundrefn. Yn ol hon yr haul ydyw craidd neu ganolbwynt *(centre)* y byd planedaidd, ac y mae'r holl gyrph eraill yn troi oddiamgylch iddo o'r gorllewin i'r dwyrain. Ac ymhlith y rhai hyn y mae ein daear ni. Er mwyn cael golwg eglur sut y mae'r ddaear yn sefyll mewn perthynas i'r haul—Wedi yr eloch gartref o'r *forge*, ac wedi machludiad haul, mynwch ford rownd o faentioli cyffredin. Gosodwch ar hon ganwyll neu *lamp*, ag uwchder ei fflam, dywedwch tua chwe' modfedd. Y fflam hon sydd i fod yn lle haul. Yn nesaf y mae'n rhaid cael daear. Erfinen gron fawr neu rywbeth cyffelyb a wna'r tro. Helwch bren main trwy hon nes byddo'r un faint o hono maes bob ochr, a hyny tua chymmaint ag a bair i ganol yr erfinen pan byddor pren yn sefyll yn union-syth, i fod yr un uwchder a'r goleu. Y pren hwn yw yr echel neu'r werthyd (*axis*),* ar yr hon y mae eich daear i droi. Y rhanau allanol yw y pegynau, gelwir yr un uwchaf yn begwn gogleddol, a'r llall yn begwn deheuol. Nid oes dim pegynau sylweddol fel yma i'r ddaear, y mae Duw wedi crogi hono, fel y dywed Job (xxvi. 7) ar ddim, ond y mae yn rhaid eu cael i'r globyn er mwyn eglurdeb. Tynwch linellau yn awr o amgylch i'r gronen, nid o begwn i begwn, ond llinellau yn rhedeg bob un â'r echel fel craidd neu ganolbwynt iddynt. Tynwch linell yn gyntaf yn y canol, o'r un pellder oddiwrth bob pegwn, hon yw llinell y cyhydedd neu y cyhydlin. Tynwch etto rhwng hon a phob un o'r pegynau wyth o linellau cydbell â'u gilydd. Gelwir y llinellau yma yn *lledred*liniau, megys y gelwir y rhai sydd yn eu croesi yn *hydred*liniau, y rhai ydynt i gyd yn rhedeg trwy'r pegynau. Wedi gwneud hyn bydd yr *apparatus* neu yr offer yn barod. Gosod yr offer ar waith sydd i fod nesaf. Gosodwch y goleuydd yn agos i ganol y ford, a'r globyn ar ei hymyl, gan ei ddal â'r echel yn unionsyth. Fe fydd hanner y globyu yn oleu a'r hanner arall yn dywyll, a chylch yn rhedeg o begwn i begwn yn rhannu rhwng y ddau. Trowch y globyn ar ei echel yn awr, gan ofalu cadw'r echel yn union syth o hyd; a chwi gewch weled dydd a nos yn cael eu rhoi yn olynol

* Yr enw mwyaf cyffredin fe ddichon yw *ecstri*, llygriad o'r gair Seisneg, *axle-tree*.

i bob rhan, a hanner pob cylch yn oleuedig ar y tro. Pe felly y byddai mewn gwirionedd gyda golwg ar y ddaear byddai'r Cymry wedi cael yr hyn oedd un o'u beirdd yn dymuno pan y dywedodd—

"Mynwn pe nef a'i mynai
Y deuddeg mis fel mis Mai."

ac yn y pegynau fe fyddai'r haul yn y terfyngylch yn barhaus, heb godi na machlud byth; byddai cyfnewidiadau hyfryd a llesiol—haf, gauaf, oerni a gwres—byddai amser hau a medi wedi darfod. Ond y mae'r Creawdydd doeth a daionus wedi gofalu yn well na hyn am ei greaduriaid. A thyma fel y mae wedi gwneud, y mae wedi gosod echel y ddaear ar osgo neu ar ogwydd deirgradd ar hugain a hanner ($23\frac{1}{2}°$) oddiwrth linell unionsyth i lyfnedd neu wastadedd *(plane)* rhodfa'r ddaear, ac wedi peri fod yr echel yn cadw yn gyfochrog neu yn gyfbell-gyfochrog (*parallel*) a'i hunan o hyd.

Fel prawf ac eglurhad o hyny gellir sylwi fod pegwn gogleddol y ddaear bob amser yn cyfeirio i'r un pwngc yn y ffurfafen. Tra mae y sêr eraill, gyda threigliad oriau a diwrnodau, mewn ymddangosiad, yn newid eu sefyllfa yn y ffurfafen, y mae un seren ag sydd bob amser, bob awr o'r nos a phob tymmor o'r flwyddyn i'w gweled yn yr un cyferyd, sef yw hòno, y sêren ogleddol *(pole star)*. At y seren hono, neu bwngc agos iddi, y mae cyfeiriad pegwn gogleddol y ddaear bob amser.

Y mae i'r ddaear heblaw y symmudiad ar yr echel, symmudiad arall o amgylch-ogylch yr haul yr hwn sydd yn cael ei gyfiawnu unwaith bob blwyddyn. Ymyl y ford yw llwybr y symmudiad hwn i'ch globyn chwi, a gwyneb y ford yw llyfnedd neu arwynebedd (?) y llwybr. Gogwyddwch begwn gogleddol y globyn $23\frac{1}{2}°$ at y goleuydd. Y mae hanner y globyn yn oleuedig fel o'r blaen, ond ar y tu uchaf i'r cyhydlin y mae mwy na hanner y cylchau yn oleuedig, y maent yn troi gan hyny mewn mwy o ddydd nac o nos. Y mae pegwn y gogledd a'r parthau agosaf ato yn troi mewn goleuni parhaus. Y mae'r globyn yn ei sefyllfa bresennol yn arddangos y ddaear fel y mae yn nhymmor yr haf. Symmudwch y globyn yn awr yn raddol gwarter y ffordd (90°) o amgylch i'r ford, gan ei droi o hyd, a gofalu cadw pob ran o'r echel yn gydbell a'i hunan. Bydd y ddau begwn fan yma megys y byddent ar yr ochr arall i'r ford hefyd yn oleuedig, a hanner yr holl gylchau yr un fath, hyny yw, byddai cyd dydd a nos dros wyneb yr holl ddaear pan yn y sefyllfa yma, yr hyn sydd yn cymmeryd lle ar yr 21ain o Fawrth a'r 21ain o Fedi. Symmudwch y globyn gwarter cylch etto hyd nes byddo yr ochr arall i'r ford o'r man y startiwyd gyntaf, gan ddal yr echel yr un ffordd o hyd. Wele begwn y gogledd yn awr yn y cysgod, a'r cylchau gogleddol mewn mwy o nos nac o ddydd. Ond wele begwn y deheu yn y goleuni, fel oedd pegwn y gogledd gynneu, a thrigolion y deheudir o'r cyhydedd i'r pegwn yn mwynhau mwy o ddydd nac o nos.

Y mae cyfnewidiad y tymmorau yn dal perthynas agos a chyfnewidiad dydd a nos, ond gan nad yw hyny yn rhan o'r gofyniad ni ychwanegaf. Yr wyf yn meddwl fod y sylwadau uchod yn agos bod yn gywir, pa un a ydynt yn ddealladwy barnwch chwi.

Yr eiddoch, &c.,

SADWRN.

Gohebiaethau.

YSPRYDOLIAETH Y BEIBL.

At Olygydd yr Ymofynydd.

ANWYL SYR,—Hysbysa eich Rhifyn diweddaf y cynhelir Cyfarfod Cwarterol nesaf Undodiaid y Deheubarth yn Bwlch-y-fadfa, ac mai pwnc y Gynnadledd yno fydd, yr hwn, i'm tyb i, sydd bwnc y pynciau, sef "Ysbrydoliaeth y Beibl." Ai gormod felly, fel un o dderbynwyr a darllenwyr yr YMOFYNYDD, geisio genych gyhoeddiad cyflawn o'r gynnadledd yn yr YMOFYNYDD; nid crynodeb talfyrhäol o honi, ond yr oll o hyny fel ei traddodir? Gyda eich cymmeradwyaeth o'm cais, a'ch gofod yn caniattau, bydd hyn yn ffafr a fawr foddhâ yr eiddoch yn barchus, &c.,

D. E. DAVIS.

Tydraw, Morganwg.

O.Y. Anwyl Syr,—Goddefwch i mi ddywedyd fy mod yn dysgwyl yn ddyfal am attebiad i'm gofyniad yn Rhifyn Chwefror diweddaf. D. E. DAVIS.

[Bydd y Cyfarfod Cwarterol wedi myned heibio cyn y cyrhaedda y rhifyn hwn Sir Aberteifi. Ond os y gallwn, fel yr y'm yn taer-obeithio, fyned i'r cyfarfod, gwnawn yn hyspys i rai o'r cyfeillion yno ddymuniad ein Gohebydd. Ond gormod o beth fyddai i ni addaw y bydd *reporter* yno i roddi "adroddiad cyflawn o'r gynnadledd." Pa fodd bynag mewn perthynas i'w ofyniad yn rhifyn Chwefror, yr y'm yn meddwl y gellir addaw rhyw fath o attebiad iddo yn y rhifyn nesaf.—GOL.]

Y "CYMRO LLWYD" A'R "GWYLIEDYDD" ETTO.

DERBYNIASOM ohebiaethau oddiwrth y ddau uchod, ar yr un pwngc, sef ein gwaith yn gwrthod cyhoeddi y cwbl o lythyr y "Cymro," ond yn unig yn rhoddi y "gofyniadau" gydag ychydig feirniadaeth er dangos yr hyn a ymddangosai i ni yn anghymmwys ynddynt. Gan nad ydym yn gweled fod galwad i ni gyhoeddi y naill na'r llall yn yr YMOFYNYDD, nis byddai ond teg i ni ddywedyd gair neu ddau yma ynghylch eu cynnwysiad. Y mae y naill yn ein canmol a'r llall yn ein beio yn fawr. Nid y'm yn chwenych cario dadl ymlaen â'n gohebwyr parth trefn ac egwyddorion ein golygiaeth; ond byddwn yn barod, gobeithio, i dderbyn addysg a chyfarwyddid. Y mae y "Cymro Llwyd" yn mhell iawn o gytuno â ni ynghylch beth sydd weddus a buddiol a moesgar mewn dadleuaeth. Nis gallwn help i hyny. Ystyria ef ein bod wedi dangos annhegwch os nid anfoesgarwch hefyd tuag atto. Ar hyn, hefyd, nid yw weddus i ni ddywedyd rhagor mewn amddiffyniad, na'i bod yn flin genym ei fod ef na neb arall yn tybied ei fod wedi cael achos i feddwl felly am danom. Nid oedd yn ein hamcan i roddi tramgwydd iddo yn bersonol.

Dywed y "Gwyliedydd," ei fod yn rhyfeddu fod y "Cymro" yn gofyn esponiad ganddo ef, ar yr hyn y mae Trindodwyr yn ei alw yn "bwngc idd ei gredu, ac nid idd ei amgyffred." Gadewir allan y *ganmoliaeth* a rodda i'r hyn a ddarfu i ni ddweud a gwneud yn y matter.—GOL.

Hanesion Cartrefol a Thramor.

Y WLADWRIAETH.—Mae'r Frenhines a'r Llŷs etto yn parhau i aros ar y Cyfandir. Da genym glywed y newydd am adnewyddiad iechyd ei Mawrhydi. Bydd Tywysog Cymru i ddyfod i'w oedran ar y 9fed o Dachwedd; a rhoddir ar ddeall na fydd i'r teulu Brenhinol i ddychwelyd i Loegr cyn hyny. Yn y cyfamser y mae y llaw-weithwyr, druain, a ymddibynent ar y gweithiau cotwm, wedi bod yn dioddef treialon eu cyfyngder gydag amynedd a thawelwch tra chanmoladwy; nid heb gydymdeimlad dwys ar ran pob dosparth, uchel ar isel, yn y wladwriaeth. Mae lle i obeithio bellach fod y dioddefwyr wedi neu ar fyned trwy'r gwaethaf. Dywedir fod o bedwar i bum mil o fyrnau o cotwm yn awr ar eu taith o India i Loegr, ac y disgwylir y bydd 200 mil wedi cyrhaedd yma cyn pen ychydig

wythnosau; a bernir gan ddynion pur brofedig yn Manchester, "hyd yn oed pe na dderbynier cyflenwad o America yn 1863, y gellir cadw y gweithfeydd i weithio hanner amser â'r cotwm a geir o wledydd eraill." Ar yr un pryd gwneir ymdrech egniol i gael rhywbeth yn lle cotwm. Hysbysa'r Newyddiaduron fod dau neu dri wedi llwyddo i ddarganfod sylwedd cymhwys i ddiwallu holl anghenion y dosparthiadau cotwm yn ddioed, a bod dynion a ystyrir yn farnwyr da ynghylch y fath beth yn sicrhau fod y nwyddau newydd yma "yn bob peth a ellid dymuno o ran lliw, hyd a chryfder, ac y gellir cael cyflawnder o honynt dan 6c. y pwys." Disgwylir y bydd ymchwiliad manwl i gael ei wneud "pa un ai ydyw y nwydd neu nwyddau yma yn debyg o atteb y diben yn gystal neu well na chotwm, ac a ellir cael cyflenwad digonol yn ddioed. Cymmer beth amser i gael hyny allan.

Y Cyfandir.—*Italy a Garibaldi.*—Y mae prif ddyddordeb y newyddion cyfandirol ar y pryd hwn yn crynöi oddeutu yr ardderchog Garibaldi, yr hwn sydd yn awr yn glwyfedig ac yn garcharor yn Spezzia. Y mae genym, bellach, adroddiad credadwy o'r frwydr yn Aspromonte, os gellir ei galw yn frwydr, gan Garibaldi ei hun. Nid oedd ef erioed wedi meddwl am ymladd â milwyr Brenin Italy. Yr oedd wedi rhoddi gorchymyn caeth i'w wŷr i beidio saethu un ergyd at eu brodyr. Ymddengys iddo gael ei saethu tra yr oedd yn ceisio attal gwrthdarawiad. Ufuddhaodd y gwirfoddolion ag oeddent yn agos i Garibaldi i'w orchymyn; ond gan nad oedd y Siciliaid oedd tuhwnt i glyw yn y cŵr pellaf yn teimlo y dylasent sefyll i gymmeryd eu saethu gan y milwyr brenhinol, hwy a danasant oreu gallent mewn hunan-amddiffyniad. Saethwyd Garibaldi yn nechreu y frwydr, tra y safai o flaen ei wŷr, gan waeddu yn uchel ar iddynt beidio tanio. Wedi ei glwyfo cariwyd ef yn ol i'r goedwig, ac felly nis gallai roddi un hanes pellach o'r hyn a ddigwyddodd. Ond y mae tystiolaeth nifer o'i gadweinyddion wedi gwneuthur y diffyg hwn i fyny; ac ar bob pwngc o bwys cadarnheir eu tystiolaeth gan adroddiad swyddol y Milwriad Pallavicino, yr hwn oedd yn llywyddu milwyr y brenin. Pan glwyfwyd ef, tynodd ei het oddiam ei ben, gan ei throi o gwmpas ei ben mewn dull tawel a hunanfeddiannol, a gwaeddai, "Italy am byth!" a rhoddodd orchymyn unwaith etto i'w wŷr beidio tanio. Yn y cyfamser, ni theimlai milwyr y brenin, y rhai a danient yn ddibaid o'r dechreu, un anhawsder i ennill buddugoliaeth. Amgylchynasant y gwirfoddolion o bob ochr, medd adroddiad y Milwriad Pallavicino, fel na buasai gwrthwynebiad pellach ond ofer. Ni pharodd y frwydr ond oddeutu chwarter awr, ac nid oedd ond cyfran o'r gwirfoddolion, fel y dywedwyd, yn cymmeryd rhan ynddi. Cynnyrchodd cwymp Garibaldi ei hun yn nechreu y frwydr gryn annhrefn a dyryswch yn mhlith ei wŷr. Gan na oddefid iddynt danio, a phan welsant eu harweinydd ar lawr, nid oedd ond naturiol iddynt wasgaru; ac ni ddarfu ond ychydig o'r rhai ffyddlonaf, fel y dywed Garibaldi, aros gydag ef. Ond y mae y ffaith fod rhai o'r gwirfoddolion wedi tanio yn rhyddhau Pallavicinio oddiwrth y cyhuddiad o lofruddio y diamddiffyn. Yr oedd y Garibaldiaid mewn sefyllfa gadarn, ac nid gorchwyl hawdd fuasai ei chymmeryd pe buasent wedi gwneud eu meddyliau i fyny o'r dechreu i'w hamddiffyn. Y mae Garibaldi yn siarad am y Milwriad Pallavicino fel swyddog deallus a dewr, yr hwn a ddwys ofidiai o herwydd y dasg oedd ganddo i'w chyflawni, Y mae un ffaith hynod sydd yn cael ei hegluro yn adroddiad swyddog Piedmont, yn cael ei hegluro yn adroddiad cadweinyddion Garibaldi. Dywed Pallavicino fod dau gadweinydd a anfonwyd at Garibaldi i ofyn iddo roddi ei hun i fyny wedi eu gwneud yn garcharorion, a'u bod ar ol hyny wedi eu rhyddhau. O'r braidd yr oeddid yn credu fod Garibaldi wedi cyflawnu gweithred mor annoeth a chymmeryd cenhadon yn dwyn baner cadoediad (*flag of truce*) yn garcharorion. Ond y mae yr eglurhad ar y dygwyddiad yn un hollol foddhaol. Pan ddaeth y cenhadon at Garibaldi, yr oeddynt yn arfog; ond gwrthododd yntau dderbyn baner cadoediad hyd nes y rhoddai y dygiedyddion eu harfau o'r neilldu; ac o'r diwedd cydsyniasant i wneuthur yr hyn a ofynid ganddynt, ac yna rhyddhawyd hwynt. Nid oes dim yn llythyr Garibaldi yn cadarnhau yr adroddiad fod milwyr y

brenin wedi ei gymmeryd trwy fradwriaeth. Er nad allwn lai na galaru ddarfod i Garibaldi fod mor fyrbwyll ag i ymgymmeryd at yr anturiaeth ddiweddaf, yr hon a drodd i maes mor annoeth ac anhappus yn ei chanlyniadau; teimlir a dangosir cymaint o barch iddo ag erioed. Ymddengys fod yr adroddiadau sydd newydd eu cyhoeddi yn profi yn eglur fod Garibaldi wedi ymddwyn yn deilwng o hono ei hun yn y digwyddiadau diweddar. Ni wnaeth ddim i ddarostwng ei gymmeriad fel dyn ac arweinydd milwraidd. Gorchfygwyd ef am na fynai ymladd â'i frodyr. Ni buasai, yn ol ei addefiad ei hun, yn ymgymmeryd â'r anturiaeth, pe buasai yn sicr o'r dechreu fod y brenin yn ei herbyn. Yr oedd yn meddwl y goddefasid ef i ymosod ar Rufain, fel y goddefwyd ef i ymosod ar deyrnas Naples. Nid oedd yn gweled dim mwy o anghyfiawnder yn y naill nag oedd yn y llall. Gweithredai yn gwbl oddi ar gariad at ei wlad, ac nid oddi ar elyniaeth at y brenin. Y mae un frawddeg yn ei lythyr sydd yn rhoddi eglurhad cywir ar yr holl anturiaeth. "Nid oeddwn yn disgwyl un help oddi wrth lywodraeth Ratazzi," meddai, "ond onid oedd genyf hawl i ddisgwyl rhywbeth oddi wrth y brenin?" Ymddengys mai hyn oedd gweiddyn ei gam-gymmeriad. Credai bron hyd y munyd olaf y buasai y brenin yn dyfod allan i'w gynnorthwyo ef, a gellir casglu ei fod yn hysbysu hyny i'w ganlynwyr. Nid oes dim hyspysiad sicr etto o'r hyn a fwriada llywodraeth Turin wneuthur âg ef. Ond y mae yn dda genym ddeall fod yr adroddiadau diweddaf am iechyd Garibaldi yn fwy ffafriol na'r rhai o'r blaen. Y mae y Proffeswr Partridge o Lundain wedi ei anfon drosodd ar draul ei gyfeillion yn Lloegr yn awr yn gweini arno yn Spezzia.

AMERICA.—Nis gwyddom beth i'w ddywedyd yn iawn, na beth i feddwl am y rhyfel brawdladdol sydd wedi para cyhyd, ac wrth bob argoelion yn debyg o bara'n hir, rhwng yr Undebwyr a gwŷr y Dê. Ni ellir celu'r ffaith fod byddinoedd yr Undeb wedi cael eu gorchfygu yn druenus yn y brwydrau diweddar, a bod lluoedd aruthrol y gelyn yn awr yn bygwth Washington. Nid yw sefyllfa caethwasol y Negroaid, mae yn debyg, yn rhoddi nemawr neu ddim blinder i gydwybodau crefyddwyr y Dê. Yr oedd Jefferson Davis wedi anfon Proclamasiwn, yn neilldduo y 18fed o Fedi yn ddydd o ddiolchgarwch i'r Arglwydd am fuddugoliaethau eu harfau yn Richmond a Manassas. Mae y newyddion a dderbyniwyd gyda'r *Persia* yn cadarnhau yr adroddiad fod rhan fawr o fyddin y Dê wedi passio dros y Potomac o Virginia i Maryland, ac wedi cymmeryd Frederick City a sefydlu llywodraeth ynddi. Ond y mae newyddion diweddarach, dyddiedig 15fed Medi, (os gellir ymddiried iddynt), yn hyspysu fod y fyddin Undebol dan Maclellan a Burnside, ar ol brwydr greulawn wedi eu gorchfygu a'u cyru ar ffo. Cymmerodd y frwydr le yn Hagerstone, o fewn deg milltir i gyffiniau Pensylvania. Disgwylir yn bryderus am gadarnhad neu adroddiad pellach o'r amgylchiad, gyda'r newyddion nesaf. Ymddengys i ni fod y rhai hyny yn Lloegr ag ydynt yn ffafrio achos y Deheuwyr, yn cadw maes o'r golwg mai y cwestiwn o gaethwasaeth oedd y gwir achos o enciliad y taleithiau Deheuol. Ac etto dywed y Llywydd Lincoln mai nid yn erbyn caethwasaeth mae y Gogleddwyr yn rhyfela, eithr er adferyd yr Undeb.

Bu Farw—

Awst 31, Roderick Evans, (Cylch-lestrwr,) Llanwnen, yn 68 oed; dydd Mercher canlynol ymgynullodd tyrfa luosog i'w hebrwng i dŷ ei hir gartref yn mynwent Capel-y-groes, pryd y pregethodd y Parch Thomas Thomas, gweinidog y lle, ar yr achlysur, oddiar 1 Cor. xv. 55, 56. Bu yr ymadawedig yn aelod selog iawn yn y capel uchod am lawer o flynyddau; adnabyddid ef fel dyn cywir, onest a chanddo gryn lawer o wybodaeth gyffredinol, ac hefyd yn "barod bob amser i atteb i bob un a ofynai iddo reswm am y gobaith oedd ynddo, gydag addfwynder ac ofn." J. E.

Cenedigaeth—

Gorphenaf 30ain, priod Mr. Samuel Jones, *grocer*, *Balarat House*, Trecynon, Aberdar, ar ferch ac etifeddes, yr hon a enwyd Mari.

I Mari, o boed mawredd,
Dan nawdd ein Iôr o hyd,
I'w chwrdd na ddoed un afiwydd
Tra'n rhodio'n hyn o fyd;
Ei buchedd fo'n rinweddol,
Hardd foesol, freiniol fri,
Er addurn i'w rhieni,
Y byddo 'i chamrau hi.

Aberdar. EIDDIL CYNON.

Barddoniaeth.

YSTYRIAETHAU AR AIL-ADEILADAETH YR HEN-DY-CWRDD, ABERDAR.

(A ganwyd erbyn ei agoriad, Medi 7, 1862.)

Haul fawr, lôn, pob daioni,
Duw ein Iôn a'n Tad ni,
Gwirionedd, rhinwedd wrth rhaid,
Dywyno'n fywyd enaid,
O'r màn hyn er mwynhad,
Rhagorion gwawl pur Gariad.
Manna y nef i'r 'menydd,
Yng ngwawl rhad Efengyl rhydd,
Yn lluniaeth bur i'n llôni,
A Duw a'i nawdd gyda ni,
A gaffom tra byddom byw,
Er ennill y rhai annuw.
O'n mynwes, bawb dymunwn
Ein toi â hedd, 'n y Tŷ hwn,—
A rhyddid meddwl gwreiddiol,
Er coethi ffydd rhai caeth, ffol,—
A iaith hynaws docthineb,
A geiriau hardd y Gwir, heb
Adnabod dyn, bryfyn brau—
Er ennill ei hir wênau.
'R *Ysgol Sul*, rhag helbul hallt,
I'n tuedd fyddo'n tywallt
Addysg lawn, rhadlawn, wrth rhaid,
Eirianno wreiddiau'r enaid,—
Yma yfwn win myfyr,
Loywa bwyll y meddwl bŷr,—
Wrth hyn pob rhyw wrthuni,
Blin ei naws ffy o'n blaen ni,—
Llygad ein deall egyr,
A braw nos o'n bronau ŷr.

CAN.

TÔN,—"*Hen Wlad fy Nhadau*"

Hên Gorlan fy Nhadau sy'n anwyl i mi,—
O'm mebŷd ces ddrachtio o'i bywiol ddw'r hi;
Mae'n gyssur i'm enaid, mae mròn fel ar dân,
Wrth wel'd ei hail-drwsio mor lân.
Glân, glân, megys hon yn lân,
Y cryf a'r gwan, a wnelo 'u rhan,
I drwsio 'u calonau yn lân.

I Griffiths* a'r Pwyllgor, diolchwn yn ddwys,
Am ail godi'r Gorlan mor rhatted a glwys;
Yn unllais dymunwn i'r Gorlan hon gael
Ei chymmwys ddodrefni heb ffael.
Glân, glan, &c., &c.

O fewn i'r wech Gorlan, lle bu'r *Hen-dŷ-cwrdd*,
Pob chwerwon groesiadau, O! gyrrwn i ffwrdd;
Gwir rhyddid meddyliol fo'n rheol pob rhai,
I buro pob mynwes o'i bai.
Glân, glân, &c., &c.

Hên Gorlan ein Tadau—pileri y Gwir—
Fo'n gaerfa i Rhyddid—byth safed ei thir;
Ei phraidd fo'n llafurus a hwylus eu hynt,
Yn gewri'r Gwirionedd fel cynt.
Glân, glân, &., &c.

Yn dŵr Rhydd-ymchwiliad boed hon megys gynt,
Er gyrru tywyllwch fel us gyda'r gwynt;
Ei Bugail a bortho ei defaid a'i hŵyn,
A'r bywiol nef-fanna yn fwyn.
Mwyn, mwyn, traether geiriau mwyn,
Er ennill dyn o lwybrau gwŷn,
Does dim at arferyd iaith fwyn.

Yn Braidd ac yn Fugail cyd-weithiwn o hyd,
Yng nghwlwm tangnefedd yn frodyr un fryd;
Gan ddangos bob amser addfwynder glân foes
Gwirionedd, a rhinwedd i'r oes.
Mwyn, mwyn, &c., &c.

A gwyneb agored, O! codwn ein llais,
Yn erbyn caethiwo y deall trwy drais;
Fel cewri gwrolfryd er hawddfyd a hedd,
Ymdrechwn gael rheswm i'w sedd.
Mwyn, mwyn, &c., &c.

Prif gyssur eneidiol y Cristion pur, yw
Cael rhyddid i'r deall i farnu Gair Duw;
Gochelwn rhag gwewyr roi 'n synwyr yn sarn,
A lladd rhyddid llafar a barn.
Barn, barn, pleidiwn rhyddid barn,
Gan chwilio'n ddwys 'r Efengyl lwys,
A'i barnu a'n *deall* bob darn.

Trecynon. CYNONWYSON.

SERCH AT OWEN.

Plentyn Mr. Thomas a Mrs. Mary Rees, 19, Alma street, Merthyr Tydfil.

Ni luniwyd erioed lanach—Owen Rees,
Neu rosyn prydferthach,
Neu un eilun anwylach,
Yn y byd na Owen bach.

I ddu ofid oedd afiach—a pherygl
Y rhoes ffarwel bellach;

* Mr. Evan Griffiths, architect, Aberdar.

A heinyf oes y Nef iach,
I'm Owen a fydd mwyach.

Rhwydd i'w fedd y rhoddaf fi—y rhosyn
Rhesog gyda'r lili;
Blodeuyn harddaf, dodaf di,
I'w wir hyglod arogli.

Merthyr. PHILLIP HUGHES.

HYDREF.

Allan o "Bowring's Russian Anthology."

Mae'r dail yn sych yn syrthio—yr awel oer lem
Ddihatrodd y goedwig o bob gwyrddlas em.
Y bryn a'r maes, wylant, mae'n ddiffaith eu llun: [un.
Mae per gânau'r gelltydd yn ddistaw bob
Y cantwyr hedasant yn gad ar ol cad,
I ardal mwy hynaws, ac i decach gwlad.
Mae'r niwl tew'n amwisgo y ddol mewn gwisg wen,
A mwg y dre'n chwareu wrth godi i'r nen.
Mae'r crwydryn yn sefyll ar ben mynydd ban.
I wel'd y gwelw Hydre'n dynesu i'r lan.
Am hyny, paid wylo, yr hen grwydryn prudd,
Can's Nattur a ddeffry, er bod 'nawr dan gudd,
Y Gwanwyn dan wenu adfywia'r holl fyd,
A gwisgoedd hardd, gorwych, i bob peth a ddyd.

Cyf. X. Y. Z.

ENGLYNION

ar gyflwyniad anrheg i Mr. Rhys Jenkin Jones, gan ysgol Sabbothol Hen-dŷ-cwrdd, Aberdar, am ei ymlyniad parhaus gyda'r Ysgol Sul yn y lle. Hydref 31, 1861.

Wele rodd yn wirfoddawl—i gyfaill,
Yn gofeb dymunawl
O iasau pur mynwesawl;
Pur a mad, pery y mawl.

I'dd ein Rhys, dilys, yn daliad—caiff hyn
Er coffa 'i ymlyniad
Wrth wyddorion, moddion mad
A chadarn, fel gwarcheidwad.

Dan nawdd Iôr, dwyn newyddion—o felus
Orfoledd ffydd Cristion;
Y byddo 'i gais, â llais llon,
Er elw daearolion.

O'm enaid 'rwy'n dymuno—a gwylaidd,
O galon yn teimlo,
I roddi y wobr iddo,
A dedwydd, beunydd y bo.

Aberdar. EIDDIL CYNON.

PEDWAR PENNILL AR IFORIAETH.

(Buddugol yn Nghyfarfod Llenyddol Cyfrinfa Ifor, Aberdar, 1862.)

Mor hyfryd yw trigo o frodyr yn nghyd,
Tan faner ddyngarol Iforiaeth;
Heb lid nac ymryson, ond hawddfyd o hyd,
Yn nghwlwm tangnefedd brawdoliaeth.
Buddioldeb Iforiaeth a welir drwy'r byd,
Fel haulwen y nef i'n sirioli;
Ei changau fel cadwyn a blethwyd ynghyd,
Mewn undeb a chariad diwyrni.

Prif ymgais ei changau undebol i gyd,
Yw cynal dedwyddwch mynwesol;
Drwy feithrin brawdgarwch a heddwch o hyd,
A mogi pob llais gelyniaethol;
Cynhenau, ymladdau, gwna'u hymlid ar ffo,
Bradwriaeth a gormes ddiflana;
Mae'n addurn i Gymru, lle bynag y bo,
Ei hiaith a'i defodau goledda.

Aelodau pob cangen Iforawl y sydd
Yn hollol gyd-ddwyn beichiau 'u gilydd;
A chariad pob mynwes yn berwi a fydd,
Y naill at y llall yn dragywydd:
Iforiaeth a gyfyd ei phleidwyr i sedd,
Uwch tlodi y byd gorthrymedig;
Rhydd gysur i'r gweithiwr a'r tlawd yn mhob gwedd,
Mae'n nodded i'r claf a'r methiedig.

Iforiaeth ddiwalla gyfreidiau y gwan,
Hi leinw ei dŷ a chysuron:
Ni raid iddo ofni daw newyn i'w ran,
Na'i yru i weithdai'r tylodion;
Ni ad i'w haelodau ddioddef sarhad
Y mawrion, a'u trawsawdurdodau;
Am hyny cydwaedded pawb ddynion drwy'r wlad—
Boed llwydd ar ei holl weithrediadau.

Trecynon. DEWI IAGO.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.